Rhif Cofrestru Cwmni 2936337

BOOMERANG PLUS CCC

Adroddiad a Datganiadau Ariannol

31 Mai 2010

ADRODDIAD A DATGANIADAU ARIANNOL 2010

CYNNWYS **Tudalen**

Pwy ydym ni **1**

Adroddiad y Cadeirydd **2**

Adolygiad busnes **3**

Cynghorwyr **6**

Adroddiad y Cyfarwyddwyr **7**

Datganiad ynghylch cyfridoldebau Cyfarwyddwyr **12**

Adroddiad cyfunol yr archwilwyr annibynnol **13**

Datganiad incwm cyfunol **14**

Datganiad Cwmni a Chyfunol o'r newidiadau mewn ecwiti **15**

Mantolenni **16**

Datganiad llif arian cyfunol **18**

Nodiadau ar gyfer y datganiadau ariannol cyfunol **19**

PWY YDYM NI

Mae Boomerang Plus Ccc ("Boomerang+") yn un o'r cwmnïau cyfryngau annibynnol mwyaf yn y Deyrnas Unedig, nad yw wedi'i leoli yn Llundain.
Gan fanteisio ar ein cyfleusterau cynhyrchu ac ôl-gynhyrchu, rydym yn creu cynnwys adloniant, cynnwys ffeithiol, cynnwys chwaraeon, cynnwys cerddoriaeth, cynnwys drama a chynnwys plant ar gyfer teledu, radio, print a'r we.

Rydym wedi cyrraedd y sefyllfa hon trwy gael tîm rheoli cadarn, sydd wedi dwyn ynghyd arbenigedd creadigol ac arbenigedd busnes amrywiaeth eang o dalent o'r byd cyfryngau.

STRATEGAETH

Mae'n nodau fel a ganlyn:

- cynhyrchu cynnwys apelgar ac o ansawdd uchel ar draws ystod o lwyfannau a *genres*;
- datblygu i fod yn gynhyrchydd blaenllaw Rhaglenni sy'n cael eu Cyllido gan Hysbysebwyr ("AFP");
- datblygu i fod yn ddarparwr blaenllaw gwasanaethau a chynnwys cyfryngau digidol; a
- bod yn gyflenwr y mae darlledwyr Rhwydwaith yn dymuno manteisio ar ei wasanaethau er mwyn llenwi eu cwotâu o'r "Cenhedloedd a'r Rhanbarthau".

UCHAFBWYNTIAU ARIANNOL

- Refeniw o £21.41 miliwn (2009 - £19.76 miliwn).
- Elw gweithredol o £0.61 miliwn (2009 - £1.14 miliwn).
- Elw gweithredol addasedig* o £0.78 miliwn (2009 - £1.25 miliwn).
- Elw cyn treth o £0.54 miliwn (2009 - £1.09 miliwn).
- Arian a chyfwerthoedd arian o £3.07 miliwn (2009 - £3.03 miliwn).

UCHAFBWYNTIAU GWEITHREDOL

- Sicrhau cynnydd da wrth arallgyfeirio gweithrediadau'r Grŵp.
- Caffael Indus Films Limited ym mis Hydref 2009.
- Twf parhaus naturiol Rhaglenni sy'n cael eu Cyllido gan Hysbysebwyr ("AFP") a buddsoddi yng ngŵyl gerddoriaeth a chwaraeon gaeaf "Freeze", a chaffael "Method", y cyhoeddwr amlgyfrwng sy'n arbenigo mewn eirafyrddio, ym mis Medi 2009.
- Sicrhau cytundeb tair blynedd sy'n werth £4 miliwn (£1.33 miliwn y flwyddyn) er mwyn cynhyrchu rhaglenni a dolenni ar gyfer Cyw, gwasanaeth S4C ar gyfer plant meithrin, gan gadarnhau ein safle fel un o'r prif gwmnïau cynhyrchu deunydd i blant yn y DU.
- Cynhyrchu gwerth 428 awr o raglenni teledu yn ystod blwyddyn galendr 2009 (2008 - 371).

RHAGOLYGON

- Cronfa ariannol sicr o £50.0 miliwn ar gyfer rhaglenni, gan gynnwys y flwyddyn gyfredol hyd yn hyn.
- amgylchedd rheoleiddio ffafriol o fewn cwotâu'r Cenhedloedd a'r Rhanbarthau.
- mantolen gref er mwyn ariannu twf yn y dyfodol.
- Mae'r gweithgarwch masnachu yn ystod y flwyddyn gyfredol yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Bwrdd.

* *wedi'i addasu ar gyfer ffioedd proffesiynol mewn perthynas â thrafodion corfforaethol aflwyddiannus (2010 - £0.07 miliwn, 2009 - £0.07 miliwn), darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiadau (2010 - £0.07 miliwn, 2009 - £dim), amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes (2010 - £0.02 miliwn, 2009 - £0.02 miliwn), a thaliadau wedi'u seilio ar gyfrannau (2010 - £0.01 miliwn, 2009 - £0.02 miliwn).*

ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno canlyniadau'r grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010, ac mae modd gweld adolygiad llawn yn adran yr Adolygiad Busnes ar dudalennau 3 i 5.

Yng ngoleuni'r anawsterau economaidd parhaus y mae darlledwyr yn eu hwynebu, bu'r amgylchedd yn heriol i'r sector cynhyrchu teledu yn y DU. Mae'r pwysau wedi parhau ar feintiau elw a chyllidebau rhaglenni a gwelwyd oedi gyda phenderfyniadau comisiynu. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, mae'n anochel bod hyn wedi cael effaith niweidiol ar refeniw a phroffidioldeb Boomerang yn ystod y flwyddyn a ystyrir yn yr adolygiad hwn.

Er gwaethaf y gefnlen hon, mae'r Bwrdd wedi parhau i symud ymlaen gyda'i strategaeth a fynegwyd yn flaenorol, o arallgyfeirio gweithrediadau'r grŵp, gan sicrhau llwyddiant yn hyn o beth. Llwyddwyd i gyflawni hyn trwy ehangu ein cronfa gwsmeriaid, ehangu ein harbenigedd mewn gwahanol *genres,* cryfhau ein safle blaenllaw ym maes Rhaglenni sy'n cael eu Cyllido gan Hysbysebwyr ("AFP"), gyda phortffolio sy'n ehangu o frandiau cleientiaid o'r DU ac ar draws y byd, a chan ddatblygu ein henw da fel darparwr gwasanaethau a chynnwys cyfryngau digidol, a pharhau i fuddsoddi mewn busnesau y mae ganddynt botensial ym maes ED yn y dyfodol.

Ar yr un pryd, rydym wedi llwyddo i gynnal ein safle cadarn fel un o gyflenwyr allweddol S4C, gan sicrhau dau cytundeb tair blynedd yn ystod y flwyddyn er mwyn darparu rhaglenni plant, a oedd yn werth £16 miliwn at ei gilydd. Mae hyn yn cynrychioli cymeradwyaeth frwd o'r talent o fewn y Cwmni, a chan sicrhau bod Boomerang yn un o'r cwmnïau cynhyrchu mwyaf yn y DU ym maes rhaglenni plant.

Yn ôl y disgwyl, yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant y Llywodraeth a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2010, bydd cyllideb raglenni S4C yn cael ei lleihau yn y dyfodol, ac mae'n anochel y bydd hyn yn cael effaith ar gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Fodd bynnag, credaf bod ein safle ni fel un o'r cwmnïau cynhyrchu teledu mwyaf yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau yn y DU, a'r ffaith ein bod yn cynhyrchu ar draws amrywiaeth eang o *genres* gan gynnwys rhaglenni adloniant, dramâu, rhaglenni ffordd o fyw, rhaglenni plant, rhaglenni chwaraeon a rhaglenni ffeithiol, yn lleddfu effaith amgylchiadau newydd S4C ar Boomerang, gan ddwyn manteision sylweddol i'r cwmni dros y blynyddoedd nesaf wrth i ofynion Ofcom ynghylch cwotâu ar gyfer darlledwyr ddod i rym.

Mae'r cwmni yn parhau i fanteisio ar fantolen gadarn gydag arian a chyfwerthoedd arian sy'n werth £3.07 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hyn, ynghyd â'n pibell refeniw gadarn o £50 miliwn am waith a gomisiynwyd ar gyfer y dyfodol (gan gynnwys y flwyddyn gyfredol hyd yn hyn), yn rhoi sylfaen cadarn i ni ar gyfer y cam nesaf o ran twf y grŵp, wrth i ni ddechrau profi'r buddion disgwyliedig o'n strategaeth arallgyfeirio. Byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd caffael pellach sy'n cyd-fynd gyda'n hamcanion strategol ac a fydd yn gallu ychwanegu gwerth i'r grŵp. Er fy mod yn disgwyl i'r amgylchedd macro barhau i fod yn heriol am gryn amser eto, rydw i'n hyderus bod y cwmni mewn sefyllfa dda i sicrhau gwerth arwyddocaol i'w gyfranddalwyr yn y tymor hir.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i holl staff Boomerang am eu hymrwymiad a'u gwaith caled ar gyfer y cwmni mewn blwyddyn a fu'n ddigon anodd a heriol i bawb. Rydym yn ffodus iawn bod gennym dîm mor wych o bobl sy'n dangos cymaint o angerdd dros sicrhau ffyniant Boomerang.

Richard Huntingford
Cadeirydd

ADOLYGIAD BUSNES

Adolygiad Ariannol – Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Fel yr amlygwyd yn y diweddariad masnachu a ryddhawyd ar 13 Mai 2010, cafodd y refeniw a'r elw o nifer o brosiectau'r Grŵp yn ystod y flwyddyn sy'n cael ei hadolygu, eu hoedi tan y flwyddyn ariannol gyfredol. Er hyn, bu caffael Indus yn fodd i ni gynyddu'r refeniw yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010 gymaint ag 8.4% i £21.41 miliwn (2009 - £19.76 miliwn).

Un o ddangosyddion perfformiad allweddol y grŵp yw elw gros, a wnaeth godi 21.6% i £3.50 miliwn (2009 – gostyngiad o 26.2%). Roedd maint yr elw gros ar gyfer y flwyddyn yn 16.3% (2009 - £2.88 miliwn). Roedd y cynnydd hwn yn bennaf o ganlyniad i'r ffaith bod dau o brosiectau'r grŵp wedi tanberfformio'n ariannol yn ystod y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae'r pwysau cyffredinol ar gyllidebau rhaglenni yn parhau. Gwelwyd yr elw gweithredol addasedig* yn gostwng 37.7% i £0.78 miliwn (2009 - £1.25 miliwn).

Gwelwyd y treuliau gweinyddol eraill yn codi o £1.86 miliwn i £2.93 miliwn o ganlyniad i gostau o £0.56 miliwn a oedd yn gysylltiedig gyda'r gweithgarwch caffael a'r busnesau newydd yn ystod y flwyddyn, a buddsoddiadau cyflymedig mewn rhaglenni a gweithgarwch datblygu busnes o £0.4 miliwn (2009 - £0.1 miliwn). Gwelwyd costau o £0.07 miliwn (2009 - £0.07 miliwn) am ffioedd proffesiynol mewn perthynas â thrafodion corfforaethol aflwyddiannus a darpariaeth ar gyfer amhariad o ran buddsoddiadau o £0.07 miliwn (£2009 - £dim) yn ystod y flwyddyn. Yr elw cyn treth a adroddwyd ar gyfer y flwyddyn oedd £0.54 miliwn (2009 - £1.09 miliwn).

Roedd gan y grŵp arian a chyfwerthoedd arian o £3.07 miliwn ar 31 Mai 2010 (2009 - £3.03 miliwn). Roedd gwariant cyfalaf y grŵp yn £1.65 miliwn yn ystod y flwyddyn tan 31 Mai 2010 (2009 - £0.44 miliwn), a gwariwyd hyn yn bennaf ar gyfleusterau stiwdio, cyfleusterau ôl-gynhyrchu a chyfleusterau darlledu allanol er mwyn gwasanaethu'r contractau Plant a ddyfarnwyd gan S4C. Ariannwyd gwerth £1.11 miliwn o'r gwariant hwn gan brydlesi cyllid. Caffaelwyd gwerth £0.46 miliwn ar ffurf asedau sefydlog anniriaethol, yn bennaf ar gyfer cylchgrawn eirafyrddio "Method", a hefyd, gwnaethpwyd gwerth £1.30 miliwn o daliadau cydnabyddiaeth ohiriedig a chaffael, a gwerth £0.37 miliwn o ad-daliadau dyledion yn ystod y flwyddyn.

Ar 31 Mai 2010, roedd gan y grŵp werth £8.98 miliwn (2009 - £8.66 miliwn) o asedau net.

* wedi'i addasu ar gyfer ffioedd proffesiynol mewn perthynas â thrafodaethau corfforaethol aflwyddiannus (2010 - £0.07 miliwn, 2009 - £0.07 miliwn), darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiadau (2010 - £0.07 miliwn, 2009 - £dim), amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes (2010 - £0.02 miliwn, 2009 - £0.02 miliwn), a thaliadau wedi'u seilio ar gyfrannau (2010 - £0.01 miliwn, 2009 - £0.02 miliwn).

Rhaglenni

Yn ystod y flwyddyn, mae holl fusnesau'r grŵp y maent yn cynhyrchu cynnwys, Boomerang, Fflic, Alfresco ac Apollo, ynghyd ag Indus a gaffaelwyd yn ddiweddar, wedi cyfrannu at bortffolio aml-*genre* cadarn o raglenni ar gyfer ein cwsmeriaid darlledu.

Unwaith eto, gwnaethom gynhyrchu ystod eang o raglenni aml-*genre* ar gyfer S4C. Roedd y rhain yn cynnwys "Sioe Frenhinol Cymru"; gwasanaethau Plant "Cyw" a "Stwnsh"; cyfresi drama "Teulu" ac "Alys"; cyfresi adloniant ffeithiol "Tocyn", "Sioe'r Tŷ", "3 Lle" a "Cyfnewid"; cyfresi cerddoriaeth "Bandit" a "Nodyn"; cyfres ieuenctid "Gofod"; a chyfresi chwaraeon "Chwa", "Rasus" a "Ras i Lundain", ymhlith eraill.

Cawsom lwyddiant nodedig wrth gynyddu ein presenoldeb Rhwydwaith naturiol mewn nifer o *genres* allweddol yn ystod y cyfnod. Ym maes Dramâu Comedi, sicrhawyd ein comisiwn rhwydwaith cyntaf ar gyfer BBC4/BBC2 - "A Child's Christmases in Wales" fel cyd-gynhyrchiad gyda Tidy Productions; ym maes rhaglenni Plant, sicrhawyd ein comisiwn cyntaf ar gyfer CBBC, "My Dad in Prison", gan gryfhau ein safle fel un o'r cwmnïau cynhyrchu rhaglenni plant mwyaf yn y DU; ac ym maes rhaglenni Ffeithiol, cynhyrchwyd "Too Poor for Posh School?" ar gyfer strand *Cutting Edge* Channel 4. Ym maes Chwaraeon, rydym wedi cynhyrchu "That Paralympic Show" ar gyfer Channel 4, cyfres gylchgrawn aml-blatfform sy'n cyflwyno Gemau Paralympaidd Llundain 2012.

ADOLYGIAD BUSNES (parhad)

Llwyddwyd i sicrhau trosiant blynyddol uwch ym maes rhaglenni AFP. Sicrhawyd ein comisiwn 3D cyntaf i gynhyrchu rhaglen Ddogfen am Sglefr-fyrddio yng nghwmni'r arwr yn y gamp hon o America, Tony Hawk. Cwblhawyd y gwaith ffilmio ar gyfer Taith Ewropeaidd Quicksilver Tony Hawk ym mis Gorffennaf 2010. Bu hon yn daith dair wythnos a wnaeth ymweld â Berlin, Rhufain, Barcelona a Brighton. Roedd cynyrchiadau AFP eraill yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys Roxy Jam Biarritz, Pencampwriaeth Fyd flynyddol Syrffio Bwrdd Hir i Fenywod, a gŵyl gerddoriaeth a gynhaliwyd ym mhencadlys syrffio Ewrop, Biarritz; trydedd gyfres Pencampwriaeth B-boy Byd Sony Ericsson; cyfres a oedd yn ceisio dod o hyd i'r criw breg-ddawnsio gorau yn y byd, ac a ffilmiwyd ar leoliad yn Efrog Newydd, Japan, de Corea, Ewrop a chan orffen yn Brixton ar gyfer rownd derfynol y gystadleuaeth; ac Academi GT Sony Playstation, y gystadleuaeth rasio ceir rhith-i-realiti a gyflwynwyd unwaith eto gan y sêr o fyd F1, Eddie Jordan a Johnny Herbert ac a ffilmiwyd ar draws Awstralia, Seland Newydd, Ewrop a'r DU. I gyd-fynd gyda'r twf naturiol hwn, buddsoddwyd yng ngŵyl gerddoriaeth a chwaraeon gaeaf "Freeze" a phenderfynwyd caffael "Method", y cyhoeddwr eirafyrddio amlgyfrwng.

Yn ychwanegol i'r llwyddiant naturiol hwn, bu ychwanegu Indus i'r grŵp yn fodd o sicrhau arbenigedd arobryn cynhyrchwyr byd enwog "Amazon" (gyda Bruce Parry), "Living with Monkeys", "Coalhouse", "Everest ER", "Venom Hunter" a "Panorama: Chocolate, the Bitter Truth". Mae cynyrchiadau presennol Indus yn cynnwys "Arctic" (gyda Bruce Parry) a "Snowdonia 1890".

Mae'r ganmoliaeth ar gyfer nifer helaeth o'n rhaglenni wedi parhau eleni yng Ngwobrau BAFTA Cymru 2009, gyda llwyddiant ar gyfer "Con Passionate", "Y Saith Magnifico a Matthew Rhys" a chwe gwobr ar gyfer "Martha, Jac a Sianco"; ac enillodd "Rhestr Nadolig Wil" wobr BAFTA Plant am y ddrama orau, ac fe'i enwebwyd ar gyfer digwyddiad cyntaf KidScreen yn Efrog Newydd.

Cyfryngau digidol

Gyda'n partner cyfryngau digidol, Cube Interactive, rydym yn parhau i archwilio a datblygu cyfleoedd ym maes y cyfryngau digidol, gan gynnwys gwefannau, gwe-ffrydio a chyfryngau rhyngweithiol. Mae'r cytundebau rhyngweithiol sylweddol yn cynnwys darparu cynnwys ar gyfer y "Sioe Frenhinol", "Stwnsh" a "Cyw".

Yn gynyddol, mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni yn cynnwys elfen aml-blatfform, yn enwedig ein cynnwys AFP, a disgwylir i hyn gynyddu ymhellach dros y blynyddoedd i ddod.

Ôl-gynhyrchu a chyfleusterau

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y grŵp £1.65 miliwn er mwyn ehangu ei gyfleusterau ôl-gynhyrchu, ei gyfleusterau camera a'i gyfleusterau stiwdio, a phrynwyd cerbyd ar gyfer darllediadau allanol. Ar hyn o bryd, gan gan y grŵp 69 o ystafelloedd golygu, pedair ystafell ddybio gyda *pro-tools* a phedair stiwdio, ynghyd â'r cerbyd ar gyfer darllediadau allanol. Rydym wedi cynyddu ein gallu cynhyrchu yn sylweddol, ein gallu Manylder Uwch a'n gallu i ol gynhyrchu i'r safon uchaf yn ystod y flwyddyn. Bellach, mae'n cyfleusterau golygu yn cynnwys system raddio *Baselight*, dwy system *Nitris DS* a dwy system *Nitris Symphony*. Mae'r cyfleusterau diweddaraf hyn yn darparu gorffeniad o ansawdd i nifer o'r cynyrchiadau ar draws y Grŵp ac ar gyfer cleientiaid allanol.

Mae cyd-fenter cyfleusterau camera y grŵp, Zoom, wedi parhau i dyfu yn ystod y flwyddyn.

Radio

Mae'r grŵp yn parhau i gyflenwi ystod amrywiol o gynyrchiadau radio, gan gynnwys rhaglenni ar gyfer BBC Radio Wales, Radio Cymru a Radio 4.

Rheoli talent

Mae Boom Talent, cwmni rheoli sy'n cynrychioli cantorion, actorion a chyflwynwyr ym maes ffilm, teledu, theatr, radio, gwaith corfforaethol a throsleisio, yn parhau i ymsefydlu.

Amgylchedd rheoleiddio

Ar 25 Medi 2009, cyhoeddodd Ofcom, Rheolydd y Diwydiant, yr ail gam ei ail adolygiad o'r sector darlledu cyhoeddus. Am y tro cyntaf, mae hwn yn cynnig cwota penodol (3%) o'r tu allan i Loegr o 2010 ar gyfer Channel 4, ynghyd â chynnydd o 30% i 35% ar gyfer y cwota y tu allan i Lundain. Yn ogystal, mae Ofcom yn "croesawu targed y BBC i gynnig gwerth 50% o'r gwaith cynhyrchu i gwmnïau y tu allan i Lundain, gydag 17% yn dod o'r cenhedloedd...". Mae hyn yn cryfhau ein barn bod y ffaith ein bod wedi ein lleoli yn y Cenhedloedd, ac yng Nghymru yn arbennig, yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r grŵp.

ADOLYGIAD BUSNES (parhad)

Llwyddwyd i sicrhau trosiant blynyddol uwch ym maes rhaglenni AFP. Sicrhawyd ein comisiwn 3D cyntaf i

Polisi difidend

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell y dylid talu difidend ar gyfer y flwyddyn (2009 - £dim). Bydd dosbarthu unrhyw ddifidendau yn y dyfodol yn dibynnu ar ganlyniadau'r grŵp, ei sefyllfa ariannol, y gofynion o ran arian, y rhagolygon ar gyfer y dyfodol a ffactorau eraill a fernir yn rhai perthnasol ar yr adeg honno. Maes o law, mae'r cyfarwyddwyr yn bwriadu mabwysiadu polisi difidend cynyddol.

Gweithgarwch masnachu presennol a'r rhagolygon

Mae'n sefyllfa fel cwmni cynhyrchu teledu annibynnol aml-*genre* sydd wedi'i leoli yn y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau, yn golygu ein bod mewn sefyllfa ddelfrydol i fanteisio ar gwotâu Ofcom, wrth i ni fynd ymlaen i ehangu ein rhaglenni Rhwydwaith.

Mae'n llwyddiant wrth sicrhau cytundebau newydd a'n hanes o sicrhau ail-gomisiynau yn rhoi safle amlwg ardderchog i'r grŵp o ran y refeniw ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a hanner cyntaf 2011/12, ac nid yw hon yn sefyllfa a welir yn aml yn ein diwydiant. Mae'r gweithgarwch masnachu presennol yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Bwrdd.

Mae twf naturiol y rhwydwaith, caffael Indus a'r twf ym maes rhaglenni AFP wedi amrywio cronfa gwsmeriaid y grŵp, gan ehangu sail ei gynnyrch deallusol. Bydd hyn yn ysgogi twf pellach mewn marchnad gynyddol fyd-eang, gan gynnig cyfleoedd i gynyddu ein meintiau elw.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i chwilio am gyfleoedd caffael pellach sy'n gallu ychwanegu gwerth i'r cyfranddalwyr mewn marchnad gyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Huw Eurig Davies
Prif Swyddog Gweithredol
26 Tachwedd 2010

Mark Fenwick
Cyfarwyddwr Cyllid
26 Tachwedd 2010

CYNGHORWYR

CYNGHORYDD ENWEBEDIG

Altium Capital Limited
30 St James' Square
Llundain
SW1Y 4AL

BROCER

Evolution Securities Limited
100 Wood Street
Llundain
EC2V 7AN

ARCHWILWYR

Deloitte LLP
Caerdydd, Y Deyrnas Unedig

CYFREITHWYR

Osborne Clarke
One London Wall
Llundain
EC2Y 5EB

CYSYLLTIADAU CYHOEDDUS ARIANNOL

Redleaf Communications
9-13 St Andrew Street
Llundain
EC4A 3AF

COFRESTRYDDION

Capita Registrars
Northern House
Woodsome Park
Fenay Bridge
Huddersfield
HD8 0LA

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Mae'r cyfarwyddwr yn cyflwyno'u hadroddiad blynyddol a datganiadau ariannol archwiliedig y grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010.

ADOLYGIAD BUSNES A'R PRIF WEITHGARWCH

Prif weithgarwch y grŵp yw cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Yn ogystal, mae'r cwmni wedi buddsoddi mewn nifer o is-gwmnïau, cyd-fentrau a chyfranogion yn y DU. Gyda'i gilydd, mae Boomerang Plus Ccc a'i is-gwmnïau yn creu'r grŵp, fel y'i cynrychiolir gan y datganiadau ariannol cyfunol hyn.

ADOLYGIAD BUSNES A DATBLYGIADAU YN Y DYFODOL

Cynhwysir adolygiad manwl o weithredoedd y grŵp a'i ddangosyddion perfformiad allweddol yn Adroddiad y Cadeirydd a'r Adolygiad Busnes ar dudalennau 3 i 5.

Ar 8 Mehefin 2009, corfforwyd Boom Extreme Publishing Limited fel is-gwmni 75% o Boomerang Plus Ccc. Ar 10 Medi 2009, gwelwyd Boom Extreme Publishing Limited yn caffael eiddo deallusol ac asedau penodol Method, cyhoeddwr amlgyfrwng sy'n cynnig newyddion a deunydd eirafyrddio ar draws platfformau argraffu, ffilm, sain a rhyngweithiol, am gydnabyddiaeth arian parod o £477,477.

Ar 23 Gorffennaf 2009, gwelwyd Boomerang Plus ccc yn caffael 25% o Big Freeze Limited am gydnabyddiaeth arian parod o £320,000 fel rhan o fenter ar y cyd gyda'r darlledwr Channel 4 a'r cwmni trefnu digwyddiadau, Sports Vision. Mae Big Freeze Limited yn gwmni cynhyrchu a sefydlwyd er mwyn trefnu a chynhyrchu digwyddiad byw Freesports on 4 Freeze, sef yr ŵyl gerddoriaeth a chwaraeon gaeaf mwyaf yn y DU, yn ogystal â digwyddiadau darlledu eraill a digwyddiadau sy'n cael eu hariannu gan hysbysebwyr.

Ar 19 Hydref 2009, gwelwyd Boomerang Plus ccc yn caffael cyfalaf cyfrannau cyfan gwbl Indus Films Limited, cwmni cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Y gydnabyddiaeth gychwynnol oedd £1,100,000, y talwyd £880,000 wrth gwblhau ac roedd £220,000 yn daladwy ar 19 Hydref 2010. Telir cydnabyddiaeth bellach o hyd at £1,295,000 ar ffurf arian parod neu gyfrannau ar sail perfformiad Indus Films Limited yn ystod y dair blynedd ar ôl cwblhau.

Ni welwyd unrhyw newidiadau arwyddocaol eraill ym mhrif weithgareddau'r grŵp yn ystod y flwyddyn dan sylw. Ar ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw newidiadau arwyddocaol tebygol i weithgareddau'r grŵp yn ystod y flwyddyn i ddod. Bydd y cwmni yn chwilio am gyfleoedd i gaffael cwmnïau cyfryngau cyflenwol a chwmnïau cynhyrchu teledu tebyg, a fydd yn cyfrannu at dwf y grŵp, ynghyd â'r cynhyrchion y gall y grŵp eu cynnig i ddarlledwyr a chleientiaid eraill.

Mae nodyn 22 y datganiadau ariannol yn cynnwys gwybodaeth am ffordd y mae'r cwmni a'i is-gwmnïau yn defnyddio offerynnau ariannol.

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD

Ceir sawl risg ac ansicrwydd posibl, a allai gael effaith bwysig ar berfformiad y cwmni yn y tymor hir.

Risgiau sy'n ymwneud â chystadleuwyr

Mae'r grŵp yn gweithredu mewn marchnad gystadleuol, sy'n cynnwys oddeutu 800 o gystadleuwyr yn y DU. Mae buddsoddiad y grŵp mewn staff creadigol a gweithgarwch datblygu rhaglenni yn lleihau'r risg a achosir gan gystadleuwyr.

Risgiau sy'n ymwneud â'r berthynas gyda chwsmeriaid

Mae'r pedwar prif ddarlledwr daearol (BBC, ITV, Channel 4 a Five), ynghyd â darparwyr aml-sianel digidol a darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus ieithoedd brodorol megis S4C yng Nghymru, yn flaenllaw iawn yn y sector teledu. O'r herwydd, mae cronfa'r cwsmeriaid yn gyfyngedig, felly mae'r proffil risg ar gyfer y sector cyfan yn fwy. S4C yw cwsmer mwyaf y grŵp o hyd. Mae hyn yn dwysáu'r risg mewn perthynas â'r cwsmer, ac mae hyn yn sefyllfa gyffredin yn y diwydiant. Rheolir y risg hwn wrth i'r grŵp gyflenwi rhaglenni ar draws ystod eang o *genres*, yn wahanol i nifer o gystadleuwyr sy'n cynhyrchu rhaglenni mewn un *genre* neu mewn nifer cyfyngedig o *genres* yn unig.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR (parhad)

PRIF RISGIAU AC ANSICRWYDD (parhad)

Risgiau sy'n ymwneud â'r berthynas gyda chwsmeriaid (parhad)

Mae refeniw is gan hysbysebu ac elfennau eraill sy'n rhoi pwysau ariannol ar ddarlledwyr, gan gynnwys y gostyngiad yng nghyfanswm y cyllid ar gyfer S4C a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS), wedi arwain at gyllidebau rhaglenni is ac o ganlyniad, pwysau ar feintiau elw gweithgarwch cynhyrchu. Er mwyn delio â hyn, rydym yn parhau i ystyried ffyrdd newydd ac arloesol o weithio, sy'n gallu ychwanegu gwerth i'n cwsmeriaid, gan gadw ein meintiau elw ar yr un pryd. Yn ogystal, fel y soniwyd yn yr Adolygiad Busnes, mae cwotâu "y tu allan i Lundain" a'r "tu allan i Loegr" yn cynyddu, ac mae incwm nad yw'n dod gan ddarlledwyr, megis rhaglenni a noddir gan hysbysebwyr, yn cynyddu, a bydd hyn yn cynnig cyfleoedd sylweddol i'r grŵp.

Risgiau sy'n ymwneud â'r trysorlys

Mae gan y grŵp gyfleuster gorddrafft o £700,000 a ddefnyddir o bryd i'w gilydd, ond fel arfer, mae mewn sefyllfa net o ran arian. Mae'r llog a enillir ar adneuon arian yn amrywio o bryd i'w gilydd yn unol â chyfraddau sylfaenol y banciau.

Mae'r holl weithgarwch gwerthu a'r costau mewn punnoedd sterling, felly nid yw'r grŵp yn wynebu risg a achosir gan gyfraddau cyfnewid.

DIFIDENDAU

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn argymell y dylid talu difidend (2009 - £dim).

STRWYTHUR CYFALAF

Mae nodyn 23 yn cynnwys manylion am y cyfalaf cyfrannau a awdurdodwyd ac a ddosbarthwyd, ynghyd â manylion am y symudiadau yn y cyfalaf cyfrannau a ddosbarthwyd gan y cwmni yn ystod y flwyddyn. Mae gan y cwmni un dosbarth o gyfrannau cyffredin, nad yw'n cynnwys hawl i incwm sefydlog. Mae gan bob cyfran yr hawl i fanteisio ar un bleidlais yng nghyfarfodydd cyffredinol y cwmni.

Ni cheir cyfyngiadau penodol ynghylch maint daliad neu ynghylch trosglwyddo cyfrannau, ac mae'r ddau weithgarwch hwn yn cael eu llywodraethu gan ddarpariaethau'r Erthyglau Cymdeithasiad a'r ddeddfwriaeth sydd mewn grym. Nid yw'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol o unrhyw gytundebau rhwng deiliaid cyfrannau'r cwmni a allai arwain at gyfyngiadau ynghylch trosglwyddo gwarannau neu ynghylch hawliau pleidleisio.

Nodir manylion cynlluniau cyfrannau cyflogeion yn nodyn 24.

Nid oes gan unrhyw unigolyn unrhyw hawl reoli arbennig dros gyfalaf cyfrannau y cwmni, a thelir yn llawn am yr holl gyfrannau a ddosbarthir.

O ran penodi a disodli cyfarwyddwyr, caiff y cwmni ei lywodraethu gan ei Erthyglau Cymdeithasiad, y Cod Cyfunol, y Ddeddf Cwmnïau a deddfwriaeth gysylltiedig. Mae modd diwygio'r Erthyglau trwy gyfrwng penderfyniad arbennig a wneir gan y cyfranddalwyr. Disgrifir pwerau'r cyfarwyddwyr ym Mhrif Gylch Gorchwyl y Bwrdd, y mae copïau ohono ar gael yn ôl y gofyn, a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol ar dudalen 10.

Dan ei Erthyglau Cymdeithasiad, mae gan y cwmni yr awdurdod i ddosbarthu cyfrannau cyffredin neu i wneud pryniannau yn y farchnad hyd at werth nominal cyfanred sy'n cyfateb â deg y cant o'r cyfalaf cyfrannau cyffredin nominal cyfanred fel a nodwyd yn y cyfrifon archwiliedig ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010.

POLISI TALU CYFLENWYR

Mae'n bolisi gan y grŵp i setlo ar amodau talu gyda chyflenwyr wrth gytuno ar yr amodau masnachu. Roedd credydwyr masnachol y grŵp ar 31 Mai 2010 yn cyfateb â phryniannau 17 diwrnod (2009 – 7 diwrnod), wedi'i seilio ar y swm dyddiol cyfartalog a anfonebwyd gan gyflenwyr yn ystod y flwyddyn.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR (parhad)

CYFARWYDDWYR A'U BUDDIANNAU

Isod, nodir cyfarwyddwyr presennol y cwmni a fu'n gwasanaethu trwy gydol y flwyddyn ariannol.

Roedd buddiannau llesiannol y cyfarwyddwyr yng nghyfalaf cyfrannau y cwmni ar ddechrau ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, fel a ganlyn:

	31 Mai 2010 dewisiadau cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2009 dewisiadau cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2010 cyfrannau cyffredin 1c Nifer	31 Mai 2009 cyfrannau cyffredin 1c Nifer
R Huntingford	-	-	-	-
H E Davies	-	-	2,334,484	2,334,484
G S Rees	-	-	918,000	918,000
M W Fenwick	86,566	86,566	357,000	357,000
R B Moore	-	-	13,111	13,111
L James	-	-	-	-

Nid oedd y cyfarwyddwyr yn meddu ar unrhyw gyfrannau mewn unrhyw gwmni grŵp arall ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn ariannol.

CYFRANDDALWYR SYLWEDDOL

Ar 30 Hydref 2010, mae hysbysiadau ynghylch buddiannau llesiannol mewn 3% neu fwy o'r cyfalaf cyfrannau a ddosbarthwyd gan y cwmni, fel a ganlyn:

	Cyfrannau cyffredin Nifer	%
H E Davies	2,334,484	26.19
G S Rees	918,000	10.30
G R Davies	918,000	10.30
M D Barnard & Co Limited	611,494	6.86
Rathbone	544,670	6.11
Finance Wales Investments Limited	479,868	5.38
Gartmore Investment Limited	444,312	4.98
D T F Richards	408,000	4.58
H T Jenkins	384,851	4.32
M W Fenwick	357,000	4.00
W R Protheroe	304,660	3.42
E H Protheroe	304,659	3.42

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR (parhad)

LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Nid yw'n ofynnol i'r cwmni gydymffurfio â'r Cod Cyfunol ar Lywodraethu Corfforaethol a gyhoeddwyd gan y Cyngor Adrodd Ariannol, felly nid yw'n adrodd ynghylch sut y mae wedi gweithredu'r egwyddorion ynddo, neu'r graddau y mae wedi cydymffurfio â'r darpariaethau ynddo trwy gydol y flwyddyn.

Fodd bynnag, mae cyfarwyddwyr y cwmni wedi ymrwymo i weithredu egwyddorion sylfaenol y Cod Cyfunol, gan roi sylw i faint y cwmni, y rhoddir eglurhad o hyn isod.

Mae gan y cwmni dri chyfarwyddwr anweithredol annibynnol sef R Huntingford, R B Moore ac L James, ac mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cymeradwyo strategaethau, cyfrifon, cyllidebau a chaffaeliadau ymhlith materion eraill.

Sefydlwyd pwyllgorau Archwilio, Cydnabyddiaeth ac Enwebu, sy'n cael eu cadeirio gan R Huntingford. Mae'r pwyllgor Archwilio yn cynnwys R Huntingford ac R B Moore ac mae'r pwyllgorau Cydnabyddiaeth ac Enwebu yn cynnwys y tri chyfarwyddwr anweithredol.

Mae cyfrifoldebau'r Pwyllgor Archwilio yn cynnwys monitro uniondeb y cwmni a datganiadau ariannol y grŵp, adolygu annibyniaeth, gwrthrychedd ac effeithiolrwydd yr archwilwyr ariannol, a gwneud argymhellion i'r Bwrdd ynghylch penodi, ailbenodi a gwaredu'r archwiliwr allanol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyfrifol am adolygu perfformiad y cyfarwyddwyr gweithredol a phennu graddfa a strwythur eu cydnabyddiaeth, gan gynnwys trefniadau bonws.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cydymffurfio ac yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheol 21 Rheolau AIM ar gyfer Cwmnïau, sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cyfarwyddwyr a chyflogeion perthnasol eraill yn delio â gwarannau'r cwmni ac i'r perwyl hwn, mae'r cwmni wedi mabwysiadu cod priodol ynghylch delio â chyfrannau.

RHEOLAETH FEWNOL

Mae Bwrdd y cyfarwyddwyr yn gyfrifol am system reolaeth fewnol y grŵp ac am adolygu ei heffeithiolrwydd, gan nodi mai sicrwydd rhesymol yn unig, ac nid sicrwydd llwyr, y mae modd i'r system ei ddarparu yn erbyn camddatgan neu golled pwysig. Mae'r cyfarwyddwyr wedi adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol a fu mewn grym trwy gydol y flwyddyn. Ceir proses barhaus er mwyn nodi, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol y mae'r grŵp yn eu hwynebu. Mae'r broses, sy'n cyd-fynd â chanllawiau "Turnbull", yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Bwrdd yn ystod ei gyfarfodydd, a chaiff camau eu cymryd i ddelio â meysydd i'w gwella y tynnir sylw'r Bwrdd atynt.

BUSNES GWEITHREDOL

Mae gan y grŵp adnoddau ariannol sylweddol, ynghyd â pherthynas dymor hir gyda'i gwsmeriaid allweddol. O ganlyniad i natur busnes y grŵp, mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'i waith cynhyrchu am gryn amser eto, ac mae hyn yn cael ei ariannu'n llawn gan ei gwsmeriaid.

Ar ôl ystyried newidiadau y mae'n rhesymol eu disgwyl mewn perthynas â pherfformiad masnachu, mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r grŵp a'r cwmni yn dangos y dylai'r grŵp a'r cwmni fod yn gallu gweithredu o fewn ei lefel bresennol. Mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd gan y grŵp a'r cwmni adnoddau digonol er mwyn parhau i weithredu am gryn amser eto. Felly, maent yn parhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol blynyddol.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR (parhad)

ARCHWILWYR

Yn achos pob un o'r unigolion sy'n gyfarwyddwyr y cwmni ar y dyddiad y cymeradwywyd yr adroddiad hwn:

- i'r graddau y mae pob un o'r cyfarwyddwyr yn ymwybodol, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn bodoli nad yw archwilwyr y cwmni yn ymwybodol ohoni; ac
- mae pob cyfarwyddwr wedi cymryd yr holl gamau y dylent eu cymryd fel cyfarwyddwyr er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod archwilwyr y cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhoddir y cadarnhad hwn, a dylid ei ddehongli yn unol â darpariaethau a418 Deddf Cwmnïau 2006.

Mae Deloitte LLP wedi mynegi eu parodrwydd i barhau i fod yn archwilwyr y cwmni, a chynigir eu hailbenodi yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir cyn bo hir.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr
ac fe'i llofnodwyd ar ran y Bwrdd

Mark Fenwick
Cyfarwyddwr Ariannol

26 Tachwedd 2010

DATGANIAD YNGHYLCH CYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Mae cyfraith gwmnïau yn mynnu bod y cyfarwyddwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Rhaid i'r cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol y grŵp dan IFRSs (IFRSs), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd, ac maent wedi dewis paratoi datganiadau ariannol y rhiant-gwmni hefyd yn unol ag IFRSs, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. Yn ôl y gyfraith gwmnïau, ni ddylai'r cyfarwyddwyr gymeradwyo'r cyfrifon oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn cynnig darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r cwmni, ac o elw neu golled y grŵp ar gyfer y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 1 yn mynnu bod cyfarwyddwyr:

yn dethol ac yn gweithredu polisïau cyfrifyddu yn gywir;
yn cyflwyno gwybodaeth, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu, mewn ffordd sy'n darparu gwybodaeth berthnasol, ddibynadwy, cymharol a dealladwy;
yn darparu datganiadau ychwanegol pan na fydd cydymffurfiaeth â'r gofynion penodol yn IFRSs yn ddigonol er mwyn galluogi defnyddwyr i ddeall effaith trafodaethau penodol, digwyddiadau eraill ac amodau ynghylch sefyllfa ariannol yr endid a'i berfformiad ariannol; ac
yn llunio asesiad o allu'r cwmni i barhau fel busnes gweithredol.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n ddigonol er mwyn dangos ac esbonio trafodaethau y cwmni ac er mwyn datgelu sefyllfa ariannol y cwmni ar unrhyw adeg, gyda chywirdeb rhesymol, ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly, am gymryd camau rhesymol i atal a darganfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sy'n ymddangos ar wefan y cwmni, ac am ei huniondeb. Gallai deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r broses o baratoi a lledaenu datganiadau ariannol, fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

ADRODDIAD CYFUNOL YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL AR GYFER AELODAU BOOMERANG PLUS CCC

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Boomerang Plus Ccc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010, sy'n cynnwys y datganiad incwm cyfunol, y datganiad cyfunol o'r newidiadau mewn ecwiti ac ar gyfer y cwmni, y mantolenni cyfunol ac ar gyfer y cwmni, y datganiadau llif arian cyfunol ac ar gyfer y cwmni a'r nodiadau 1 i 28 cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a weithredwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs), fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i aelodau'r cwmni yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3 Rhan 16 Deddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio mewn ffordd sy'n ein galluogi i ddatgan i aelodau'r cwmni y materion hynny y mae'n rhaid i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr, heb i hynny fod at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llawn a ganiateir gan y gyfraith, ni fyddwn yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, neu'r safbwyntiau a ffurfiwyd gennym, i unrhyw un ac eithrio'r cwmni ac aelodau'r cwmni fel corff.

Cyfrifoldebau priodol cyfarwyddwyr ac archwilwyr

Fel y mae'r Datganiad ynghylch Cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr yn ei esbonio'n llawnach, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol cyfunol yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn mynnu ein bod yn cydymffurfio gyda Safonau Moesegol i Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio (APB).

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mewn archwiliad, caiff tystiolaeth ei sicrhau ynghylch y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad pwysig, boed hynny wedi cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad sy'n ystyried a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol ar gyfer amgylchiadau'r grŵp a'r rhiant-gwmni, ac a ydynt wedi cael eu gweithredu mewn ffordd gyson a'u datgelu mewn ffordd ddigonol; pa mor resymol yw amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaethpwyd gan y cyfarwyddwyr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Barn am y datganiadau ariannol
Yn ein barn ni:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mai 2010, ynghyd ag elw'r grŵp a'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn gywir yn unol ag IFRSs, fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Barn ynghylch mater arall a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni:

- mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn cyd-fynd â'r datganiadau ariannol.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd yn eu cylch drwy eithriadau

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd ynghylch y materion canlynol, lle y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn mynnu ein bod yn adrodd i chi, yn ein barn ni:

- os na fydd y rhiant-gwmni wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol, neu os na chafwyd dychweliadau sy'n addas ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â nhw; neu
- os nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn cyd-fynd gyda'r cofnodion cyfrifyddu a'r dychweliadau; neu
- os na wneir datgeliadau penodol ynghylch cydnabyddiaeth cyfarwyddwyr, y mae angen eu gwneud yn ôl y gyfraith; neu
- os nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae angen i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

Nigel Thomas (Archwiliwr Statudol Uwch)
dros ac ar ran Deloitte LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilwyr Statudol
Caerdydd, Y Deyrnas Unedig
26 Tachwedd 2010

DATGANIAD INCWM CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

	Nodyn	2010 £'000	2009 £'000
Gweithredoedd sy'n parhau			
Refeniw	2	21,409	19,759
Cost gwerthiannau		(17,912)	(16,882)
ELW GROS		3,497	2,877
Treuliau gweinyddol			
Treuliau gweinyddol eraill		(2,928)	(1,862)
Ffioedd proffesiynol mewn perthynas â thrafodaethau corfforaethol aflwyddiannus		(73)	(66)
Darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiadau		(70)	-
Amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes	12	(20)	(21)
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	24	(7)	(23)
Cyfanswm y treuliau gweinyddol		(3,098)	(1,972)
Incwm gweithredol arall		227	232
Cyfran canlyniadau cyd-fentrau a chyfranogion		(18)	3
ELW GWEITHREDOL	5	608	1,140
Refeniw buddsoddi	7	3	25
Costau cyllid	8	(76)	(71)
ELW CYN TRETH		535	1,094
Treth	10	(218)	(207)
ELW AR GYFER Y FLWYDDYN		317	887
I'w briodoli i:			
Deiliaid ecwiti y rhiant		317	887
Enillion fesul cyfran	11		
Sylfaenol		3.56c	9.96c
Gwanedig		3.50c	9.70c
Addasedig – sylfaenol		5.47c	11.20c
Addasedig – gwanedig		5.38c	10.91c

Nid oedd unrhyw eitemau incwm cynhwysfawr yn y flwyddyn gyfredol na'r flwyddyn flaenorol, ac eithrio'r elw ar gyfer y flwyddyn, felly ni chyflwynir datganiad incwm cynhwysfawr.

DATGANIAD CYFUNOL O'R NEWIDIADAU MEWN ECWITI
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

	Cyfalaf cyfrannau £'000	Cyfrif premiwm cyfrannau £'000	Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad £'000	Enillion argadwedig £'000	Cyfanswm yr ecwiti £'000
Grŵp					
Balans ar 1 Mehefin 2008	89	3,931	1,217	2,510	7,747
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	887	887
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	-	2	-	-	2
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	23	23
Balans ar 1 Mehefin 2009	89	3,933	1,217	3,420	8,659
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	317	317
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	-	1	-	-	1
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	7	7
Balans ar 31 Mai 2010	89	3,934	1,217	3,744	8,984

Mae'r grŵp wedi manteisio ar adran 612 Deddf Cwmnïau 2006, felly mae'r swm dros ben o werth nominal y cyfrannau a ddosbarthwyd ac eithrio am arian, wedi cael ei neilltuo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad.

	Cyfalaf cyfrannau £'000	Cyfrif premiwm cyfrannau £'000	Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad £'000	Enillion argadwedig £'000	Cyfanswm £'000
Cwmni					
Balans ar 1 Mehefin 2008	89	3,931	1,217	2,309	7,546
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	771	771
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	-	2	-	-	2
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	23	23
Balans ar 1 Mehefin 2009	89	3,933	1,217	3,103	8,342
Elw ar gyfer y flwyddyn ariannol	-	-	-	1,185	1,185
Cyfrannau newydd a ddosbarthwyd	-	1	-	-	1
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	-	-	-	7	7
Balans ar 31 Mai 2010	89	3,934	1,217	4,295	9,535

MANTOLENNI
31 Mai 2010

	Nodyn	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
ASEDAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL					
Ewyllys da	12	3,049	2,131	1,270	-
Asedau anniriaethol eraill	12	2,444	1,161	18	18
Eiddo, cyfarpar ac offer	13	2,931	1,686	2,532	1,356
Buddsoddiadau	14	371	147	5,798	4,779
		8,795	5,125	9,618	6,153
ASEDAU CYFREDOL					
Stocrestrau	15	9	-	-	-
Masnach a derbyniadau eraill	16	4,158	3,625	3,610	3,033
Asedau treth cyfredol		219	219	-	-
Arian a chyfwerthoedd arian	16	3,070	3,027	665	1,250
		7,456	6,871	4,275	4,283
CYFANSWM YR ASEDAU		16,251	11,996	13,893	10,436
RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL					
Masnach a symiau taladwy eraill	18	4,615	2,106	1,889	1,125
Rhwymedigaethau treth cyfredol		84	407	(1)	149
Cael a rhoi benthyciadau sy'n dwyn llog	17	492	307	460	303
Cydnabyddiaeth ohiriedig	21	333	209	333	209
		5,524	3,029	2,681	1,786
RHWYMEDIGAETHAU NAD YDYNT YN RHAI CYFREDOL					
Cael a rhoi benthyciadau sy'n dwyn llog	17	742	175	681	175
Symiau taladwy eraill	18	47	17	47	17
Rhwymedigaethau treth ohiriedig	19	232	116	227	116
Cydnabyddiaeth ohiriedig	21	722	-	722	-
		1,743	308	1,677	308
CYFANSWM Y RHWYMEDIGAETHAU		7,267	3,337	4,358	2,094
ASEDAU NET		8,984	8,659	9,535	8,342

MANTOLENNI (parhad)
31 Mai 2010

	Nodyn	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
ECWITI					
Cyfalaf cyfrannau	23	89	89	89	89
Cyfrif premiwm cyfrannau		3,934	3,933	3,934	3,933
Cronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad		1,217	1,217	1,217	1,217
Enillion argadwedig		3,744	3,420	4,295	3,103
CYFANSWM YR ECWITI		8,984	8,659	9,535	8,342

Cymeradwywyd datganiadau ariannol Boomerang Plus Ccc, rhif cofrestredig 2936337, gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ac fe'u hawdurdodwyd i'w cyhoeddi ar 26 Tachwedd 2010

Llofnodwyd ar ran Bwrdd y Cyfarwyddwyr

H E Davies
Cyfarwyddwr

M W Fenwick
Cyfarwyddwr

DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

	Nodyn	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'00
MEWNLIF /(ECHLIF) ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL	27	2,615	(2,828)	621	(1,675)
GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI					
Llog a gafwyd		3	25	-	13
Difidendau a gafwyd		-	-	994	450
Prynu eiddo, cyfarpar ac offer		(544)	(183)	(472)	(173)
Caffael is-gwmnïau (gweler nodyn 25)		(768)	-	(932)	-
Caffael cyd-fentrau a chyfranogion		(326)	(33)	(325)	-
Caffael is-gwmnïau – taliadau cydnabyddiaeth ohiriedig	21	(209)	(146)	(209)	(146)
Enillion o waredu eiddo, cyfarpar ac offer		1	54	-	51
ARIAN NET A DDEFNYDDIWYD MEWN GWEITHGAREDDAU BUDDSODDI		(2,301)	(283)	(956)	195
GWEITHGAREDDAU ARIANNU					
Ad-daliadau ymrwymiadau dan brydlesi cyllid		(372)	(340)	(351)	(315)
Enillion o ddosbarthu cyfrannau		1	3	1	2
Grantiau a gafwyd		100	150	100	150
ARIAN NET A DDEFNYDDIWYD MEWN GWEITHGAREDDAU ARIANNU		(271)	(187)	(250)	(163)
CYNNYDD/(GOSTYNGIAD] NET MEWN ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN		43	(3,298)	(585)	(1,643)
ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN AR DDECHRAU'R FLWYDDYN		3,027	6,325	1,250	2,893
ARIAN A CHYFWERTHOEDD ARIAN AR DDIWEDD Y FLWYDDYN		3,070	3,027	665	1,250

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

1. GWYBODAETH GYFFREDINOL

Mae Boomerang Plus Ccc yn gwmni corfforedig yn y Deyrnas Unedig dan Ddeddf Cwmnïau 2006, y mae ei gyfrannau'n cael eu masnachu'n gyhoeddus ar AIM. Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yw 218 Heol Penarth, Caerdydd CF11 8NN. Nodir natur gweithredoedd y grŵp hwn o'r DU, ynghyd â'i brif weithgareddau, yn yr adolygiad busnes a'r adran ynghylch y prif weithgarwch ar dudalen 7 adroddiad y cyfarwyddwyr.

MABWYSIADU SAFONAU NEWYDD A DIWYGIEDIG

Yn ystod y flwyddyn gyfredol, mabwysiadwyd y dehongliadau a'r safonau newydd a diwygiedig canlynol, ac maent wedi effeithio ar y symiau a adroddir yn y datganiadau ariannol hyn.

Safonau sy'n effeithio ar y gweithgarwch cyflwyno a datgelu

IAS 1 (diwygiwyd 2007) Cyflwyno Datganiadau Ariannol	Mae IAS 1 (2007) wedi cyflwyno nifer o newidiadau ynghylch mabwysiadau ffurf a chynnwys y datganiadau ariannol.
IFRS 8 Cylchrannau Gweithredol	Mae IFRS 8 yn safon ynghylch datgelu. Nid yw wedi arwain at newid o ran cylchrannau adroddadwy y grŵp.
Gwella Datgeliadau ynghylch Offerynnau Ariannol (Diwygiadau i IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau)	Mae'r diwygiadau i IFRS 7 yn ehangu'r datgeliadau sy'n ofynnol o ran mesuriadau gwerth teg a risg hylifedd.

Ar y dyddiad yr awdurdodwyd y datganiadau ariannol, roedd y safonau a'r dehongliadau canlynol wedi cael eu cyhoeddi, ond nid oeddent yn effeithiol eto, ac nid ydynt wedi cael eu gweithredu yn y datganiadau ariannol:

IFRS 1 (diwygiedig)/IAS 27 (diwygiedig)	Cost Buddsoddi mewn Is-gwmni, Endid a Reolir ar y Cyd neu Gyfrannog
IFRS 3 (diwygiwyd 2008)	Cyfuniadau Busnes
IFRS 9	Offerynnau Ariannol
IAS 24 (diwygiedig)	Datgeliadau Partïon Cysylltiedig
IAS 27 (diwygiwyd 2008)	Datganiadau Ariannol Cyfunol ac Ar Wahân
IAS 28 (diwygiwyd 2008)	Buddsoddi mewn Cyfranogion
IAS 32 (diwygiad)	Materion ynghylch Dosbarthiad Hawliau
IAS 39 (diwygiad)	Eitemau Rhagfantoli Cymwys
IFRIC 14	Rhagdaliadau Gofyniad Cyllido Isaf
IFRIC 17	Dosbarthu Asedau Anariannol i Berchnogion
IFRIC 18	Trosglwyddiadau Asedau o Gwsmeriaid
IFRIC 19	Gwaredu Rhwymedigaethau gydag Offerynnau Ecwiti

Gwelliant i IFRSs (Ebrill 2009)

Nid yw'r cyfarwyddwyr yn rhagweld y bydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn ystod cyfnodau yn y dyfodol, yn cael effaith bwysig ar ddatganiadau ariannol y grŵp, ac eithrio o ran triniaeth caffael is-gwmnïau a chyfranogion pan fydd IFRS 3 (diwygiwyd 2008), IAS 27 (diwygiwyd 2008) ac IAS 28 (diwygiwyd 2008) yn dod i rym ar gyfer cyfuniadau busnes pan fo'r dyddiad caffael yn digwydd ar neu ar ôl dechrau'r cyfnod blynyddol cyntaf sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Gorffennaf 2009.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

2. POLISÏAU CYFRIFYDDU

Sail y cyfrifyddu

Caiff y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs).

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail cost hanesyddol. Isod, amlinellir y prif bolisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd, a weithredwyd mewn ffordd gyson yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Cyflwynir y datganiadau ariannol hyn mewn punnoedd sterling gan mai dyma arian breiniol y prif amgylchedd economaidd y mae'r grŵp yn gweithredu ynddo.

Busnes gweithredol

Nodir gweithgareddau busnes y grŵp, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad yn y dyfodol, ei berfformiad a'i sefyllfa, ei sefyllfa ariannol ar ddyddiad y fantolen, ei lif arian a'i sefyllfa hylifol, yn adroddiad y cadeirydd ar dudalen 2, yr adolygiad busnes ar dudalennau 3 i 5 ac adroddiad y cyfarwyddwyr ar dudalennau 7 i 11. Yn ogystal, mae nodyn 22, Offerynnau Ariannol, yn cynnwys amcanion a pholisïau a phroses y grŵp ar gyfer rheoli risg cyfalaf; ei amcanion o ran rheoli risg ariannol; a'r risg y mae'n agored iddo o ran y farchnad, credyd a hylifedd.

Mae gan y grŵp adnoddau ariannol sylweddol, ynghyd â pherthynas dymor hir gyda'i gwsmeriaid allweddol. O ganlyniad i natur busnes y grŵp, mae'r rheolwyr yn ymwybodol o'i waith cynhyrchu am gryn amser eto, ac mae hyn yn cael ei ariannu'n llawn gan ei gwsmeriaid.

Ar ôl ystyried newidiadau y mae'n rhesymol eu disgwyl mewn perthynas â pherfformiad masnachu, mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r grŵp a'r cwmni yn dangos y dylai'r grŵp a'r cwmni fod yn gallu gweithredu o fewn ei lefel bresennol. Mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol y bydd gan y grŵp a'r cwmni adnoddau digonol er mwyn parhau i weithredu am gryn amser eto. Felly, maent yn parhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol blynyddol.

Cyfuniadau busnes

Rhoddir cyfrif am gaffael is-gwmnïau trwy ddefnyddio'r dull prynu. Caiff cost y caffaeliad ei fesur fel cyfanred gwerthoedd teg yr asedau a roddwyd, y rhwymedigaethau a ddaw yn sgil hynny neu a ysgwyddir, ac offerynnau ecwiti a ddosbarthir gan y grŵp yn gyfnewid am reolaeth y sawl a gaffaelir ar y dyddiad cyfnewid, ac unrhyw gostau y gellir eu priodoli yn uniongyrchol i'r cyfuniad busnes. Caiff darpariaethau ar gyfer cydnabyddiaeth ohiriedig eu cydnabod ar y dyddiad caffael pan fo gan y grŵp ymrwymiad presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, ac mae'n debygol y bydd gofyn i'r grŵp setlo'r ymrwymiad hwnnw. Mesurir y darpariaethau yn unol ag amcangyfrif gorau y cyfarwyddwyr o'r gwariant sy'n angenrheidiol er mwyn setlo'r ymrwymiad ar ddyddiad y fantolen a chânt eu disgowntio i'r gwerth presennol pan fo'r effaith yn bwysig.

Caiff asedau adnabyddadwy, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau presennol y sawl a gaffaelir sy'n bodloni'r amodau ynghylch cydnabod dan IFRS 3, eu cydnabod yn unol â'u gwerth teg ar y dyddiad caffael, ac eithrio ar gyfer asedau nad ydynt yn rhai cyfredol (neu grwpiau gwaredu) a ddosbarthir fel rhai a gedwir i'w hailwerthu yn unol ag IFRS 5 Asedau Heb fod yn rhai Cyfredol a Gedwir i'w Gwerthu a Gweithredoedd a Derfynwyd, sy'n cael eu cydnabod a'u mesur yn unol â'u gwerth teg yn llai costau i'w gwerthu.

Mae'r grŵp wedi manteisio ar adran 612 Deddf Cwmnïau 2006, felly mae'r swm dros ben o werth nominal y cyfrannau a ddosbarthwyd ac eithrio ar gyfer arian, wedi cael ei neilltuo i'r gronfa wrth gefn ar gyfer cyfuniad.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

3. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Caiff ewyllys da sy'n deillio o gaffael ei gydnabod fel ased a'i fesur am y gost i ddechrau, sef y swm dros ben o gost y cyfuniad busnes dros fudd y grŵp yng ngwerth teg net yr asedau adnabyddadwy, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau presennol a gydnabuwyd. Ar ôl ailasesu, os bydd budd y grŵp yng ngwerthoedd teg net asedau, rhwymedigaethau a rhwymedigaethau adnabyddadwy y sawl a gaffaelir yn uwch na chost y cyfuniad busnes, caiff y swm dros ben ei gydnabod yn y datganiad incwm yn syth.

I ddechrau, mesurir budd cyfranddalwyr lleiafrifol yn y sawl a gaffaelir yn unol â chyfran y rhai lleiafrifol o werth teg net yr asedau, y rhwymedigaethau a'r rhwymedigaethau presennol cydnabyddedig.

Endidau a reolir ar y cyd

Mae cyd-fenter yn endid y mae gan y grŵp reolaeth drosto ar y cyd, a gallu ar y cyd i lywodraethu penderfyniadau polisi ariannol a gweithredol y gweithgarwch economaidd er mwyn sicrhau buddion ohono.

Mae'r grŵp yn rhoi cyfrif am ei endidau a reolir ar y cyd trwy gyfrwng dull cyfrifyddu ecwiti.

Buddsoddiadau mewn cyfranogion

Mae cyfrannog yn endid y mae'r grŵp mewn sefyllfa i gael dylanwad arwyddocaol arno, ond nid rheolaeth neu reolaeth ar y cyd, trwy gymryd rhan ym mhenderfyniadau polisi gweithredol ac ariannol y sawl y buddsoddwyd ynddynt. Dylanwad arwyddocaol yw'r grym i gymryd rhan ym mhenderfyniadau polisi gweithredol ac ariannol y sawl y buddsoddwyd ynddynt, ond nid yw'n cyfateb â rheolaeth neu reolaeth ar y cyd dros y polisïau hynny.

Caiff canlyniadau ac asedau a rhwymedigaethau cyfranogion eu cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn gan ddefnyddio'r dull cyfrifyddu ecwiti, ac eithrio pan fyddant yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu. Caiff buddsoddiadau mewn cyfranogion eu cynnal yn ôl eu cost yn y fantolen, fel sy'n cael ei addasu gan newidiadau ôl-gaffael yng nghyfran y grŵp o asedau net y cyfrannog, yn llai unrhyw amhariad yng ngwerth buddsoddiadau unigol. Caiff colledion cyfrannog sy'n uwch o ran eu gwerth na budd y grŵp yn y cyfrannog hwnnw (sy'n cynnwys unrhyw fuddiannau tymor hir sy'n rhan o fuddsoddiad net y grŵp yn y cyfrannog o ran sylwedd) eu cydnabod i'r graddau ag y mae'r grŵp wedi wynebu ymrwymiadau cyfreithiol neu adeiladol neu wneud taliadau ar ran y cyfrannog yn unig.

Caiff unrhyw swm dros ben y gost gaffael dros gyfran y grŵp o werthoedd teg asedau net adnabyddadwy y cyfrannog ar y dyddiad caffael, ei gydnabod fel ewyllys da. Caiff yr ewyllys da ei gynnwys o fewn swm cynnal y buddsoddiad ac mae'n cael ei asesu am amhariad fel rhan o'r buddsoddiad hwnnw. Caiff unrhyw ddiffyg o ran y gost gaffael islaw cyfran y grŵp o werthoedd teg asedau net adnabyddadwy y cyfrannog ar y dyddiad caffael (h.y. gostyngiad wrth gaffael) ei gredydu i elw neu golled yn ystod y cyfnod caffael.

Pan fo cwmni grŵp yn masnachu gydag un o gyfranogion y grŵp, caiff elw a cholledion eu dileu i'r graddau sy'n cyfateb â budd y grŵp yn y cyfrannog perthnasol. Gall colledion ddarparu tystiolaeth o amhariad yr ased a drosglwyddwyd ac os felly, gwneir darpariaeth briodol ar gyfer amhariad.

Ewyllys da

Mae ewyllys da sy'n codi wrth gyfuno yn cynrychioli swm dros ben y gost gaffael dros fudd y grŵp yng ngwerth teg asedau adnabyddadwy a rhwymedigaethau is-gwmni ac endidau a reolir ar y cyd ar y dyddiad caffael. I ddechrau, caiff ewyllys da ei gydnabod fel ased am y gost ac yn dilyn hyn, caiff ei fesur fel cost yn llai unrhyw golledion amhariad cronedig. Caiff ewyllys da, a gydnabyddir fel ased, ei adolygu ar gyfer amhariad o leiaf unwaith y flwyddyn. Caiff unrhyw amhariad ei gydnabod yn y datganiad incwm, ac ni chaiff ei wrthdroi wedi hyn.

At ddibenion profi amhariad, caiff ewyllys da ei neilltuo i bob uned yn y grŵp sy'n gwneud arian ac y disgwylir iddynt elwa ar synergeddau'r cyfuniad. Caiff unedau sy'n gwneud arian, y neilltuwyd ewyllys da iddynt, eu profi am amhariad bob blwyddyn, neu'n amlach na hynny pan geir arwydd y gallai'r uned fod yn dioddef amhariad. Os bydd swm adferadwy yr uned sy'n gwneud arian yn llai na swm cynnal yr uned, caiff colled yr amhariad ei neilltuo yn gyntaf er mwyn gostwng swm cynnal unrhyw ewyllys da sy'n cael ei neilltuo i'r uned ac yna i asedau eraill yr uned pro-rata, ar sail swm cynnal pob ased yn yr uned. Ni chaiff colled amhariad a gydnabyddir ar gyfer ewyllys da ei wrthdroi yn ystod cyfnod dilynol.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

4. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Wrth waredu unrhyw is-gwmni, caiff swm cyfrifadwy yr ewyllys da ei gynnwys yn y diffiniad elw neu golled wrth waredu.

Mae ewyllys da sy'n deillio o gyfuniadau busnes cyn y dyddiad trosglwyddo i IFRS wedi cael ei gadw yn ôl, yn unol â'r gwerth a fyddai'n dod trwy weithredu egwyddorion UK GAAP.

Refeniw a chydnabyddiaeth refeniw

Mae refeniw (nad yw'n cynnwys TAW) yn cynrychioli symiau a geir am waith a gyflawnir wrth gynhyrchu ac ôl-gynhyrchu rhaglenni teledu a radio, comisiwn o weithgarwch rheoli talent ac incwm cyhoeddi, ac mae'n cael ei gydnabod yn ystod cyfnod y gweithgarwch cysylltiedig. Mesurir refeniw trwy gyfeirio at werth teg y gydnabyddiaeth a gafwyd neu i'w dderbyn gan gwsmeriaid. Caiff elw ei gydnabod ar gontractau tymor hir lle y bydd modd asesu'r canlyniad terfynol gyda sicrwydd rhesymol. Wrth gyfrifo hyn, defnyddir y dull canran cwblhau er mwyn cyfrifo'r elw, ar sail cyfran y costau a gododd i gyfanswm y costau amcangyfrifedig. Mae'r gost yn cynnwys costau allanol a staff uniongyrchol. Caiff elw gros ar weithgarwch cynhyrchu ei gydnabod yn ystod y cyfnod cynhyrchu ac yn unol â'r contract sylfaenol. Caiff achosion o orwario ar gost cynyrchiadau eu cydnabod wrth iddynt godi ac achosion o danwario ar y gost eu cydnabod pan fydd yn hysbys gyda sicrwydd rhesymol ynghylch sefyllfa derfynol y contract perthnasol. Caiff ffioedd terfynol cynyrchiadau eu cydnabod ar ôl cwblhau'r cynyrchiadau yn unol â'r cytundeb cytundebol sylfaenol. Pan fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen ar gynyrchiadau a phan fo'r gwerthiannau a anfonebwyd yn uwch na chost y gwaith a gwblhawyd, nodir y swm dros ben fel incwm gohiriedig. Pan fo gwerth y gwaith a gwblhawyd yn uwch na'r swm a anfonebwyd, nodir y swm dros ben fel incwm cronedig. Pan y bydd yn debygol y bydd cyfanswm y costau cynhyrchu yn uwch na'r refeniw dan gontract, caiff y golled ddisgwyliedig ei chydnabod fel traul yn syth.

Caiff refeniw mewn perthynas ag incwm trwyddedu a dosbarthu ei gydnabod pan fo'r grŵp wedi sicrhau'r hawl i gydnabod y refeniw a phan fydd wedi cydymffurfio gydag amodau cytundeb y drwydded, gan gynrychioli symiau derbyniadwy dan gontractau o'r fath.

Grantiau

Bydd grantiau o ran gwariant cyfalaf yn cael eu credydu i gyfrif incwm gohiriedig a chânt eu rhyddhau i'r datganiad incwm yn ystod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr asedau perthnasol. Caiff grantiau o natur refeniw eu credydu i'r incwm yn ystod y flwyddyn y maent yn ymwneud â hi.

Elw gweithredol

Caiff elw gweithredol ei ddatgan ar ôl codi tâl/(credydu) cyfran canlyniadau cyd-fentrau a darpariaethau codi tâl ar gyfer amhariad mewn buddsoddiadau mewn cyfranogion, ond cyn incwm buddsoddi a chostau cyllid.

Pensiynau

Codir taliadau i gynlluniau buddion ymddeol cyfraniad diffiniedig fel traul wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Prydlesi

Caiff prydlesi eu dosbarthu fel prydlesi cyllid pryd bynnag y bydd amodau'r brydles yn trosglwyddo holl risgiau a buddion perchnogaeth i'r daliwr prydles mewn ffordd sylweddol. Caiff yr holl brydlesi eraill eu dosbarthu fel prydlesi gweithredu.

Caiff asedau a gedwir dan brydles gyllid eu cydnabod fel asedau yn y fantolen yn unol â'u gwerth teg neu, os yw'n is, yn unol â gwerth presennol isafswm y taliadau prydles, y bydd pob un yn cael eu pennu ar ddechrau'r brydles. Cynhwysir y rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr yn y fantolen fel ymrwymiad prydles gyllid. Caiff taliadau prydles eu dosrannu rhwng taliadau cyllid a lleihau'r ymrwymiad prydles er mwyn sicrhau cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Caiff taliadau cyllid eu codi yn uniongyrchol yn erbyn incwm.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

5. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Caiff trefniadau rhentu dan brydlesi gweithredol eu codi i'r datganiad incwm ar sail llinol yn ystod cyfnod y brydles.

Treth

Mae'r traul treth yn cynrychioli swm y dreth i'w thalu ar hyn o bryd, a threth ohiriedig.

Mae'r dreth i'w thalu ar hyn o bryd wedi'i seilio ar elw trethadwy ar gyfer y flwyddyn. Mae elw trethadwy yn wahanol i elw net fel yr adroddwyd yn y datganiad incwm, gan nad yw'n cynnwys eitemau incwm neu dreuliau sy'n drethadwy neu sy'n dynadwy mewn blynyddoedd eraill ac at hynny, mae'n gwahardd eitemau nad ydynt fyth yn drethadwy neu'n dynadwy. Caiff rhwymedigaeth y grŵp ar gyfer treth gyfredol ei gyfrifo gan ddefnyddio cyfraddau treth a ddatganwyd neu a ddatganwyd o ran sylwedd erbyn dyddiad y fantolen.

Mae is-gwmni'r grŵp, Boom Films Limited, yn gerbyd diben arbennig sy'n ymwneud â'r gwaith o gynhyrchu Ffilmiau Theatrig. O'r herwydd, mae Boom Films Limited yn cael credydau treth ffilm ar sail canran o'r gwariant ar waith cynhyrchu. Cydnabyddir y credydau hyn yn y datganiad incwm fel rhan o'r tâl treth ar gyfer y flwyddyn pan fydd tystiolaeth ddigonol yn bodoli i gynorthwyo'r gydnabyddiaeth incwm.

Treth ohiriedig yw'r dreth y disgwylir iddi fod yn daladwy neu'n adferadwy ar gyfer gwahaniaethau rhwng symiau cynnal asedau a rhwymedigaethau yn y datganiadau ariannol a'r seiliau treth cyfatebol a ddefnyddir wrth gyfrifiannu elw trethadwy, a rhoddir cyfrif amdani trwy ddefnyddio dull rhwymedigaeth y fantolen. Yn gyffredinol, caiff rhwymedigaethau treth ohiriedig eu cydnabod ar gyfer yr holl wahaniaethau dros dro trethadwy a chaiff asedau treth ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ag y mae'n debygol y bydd elw trethadwy ar gael y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro tynadwy yn ei erbyn. Ni chaiff asedau a rhwymedigaethau o'r fath eu cydnabod os bydd y gwahaniaeth dros dro sy'n codi o'r cydnabod ewyllys da cychwynnol neu o'r cydnabod cychwynnol (ac eithrio mewn cyfuniad busnes) ar gyfer asedau a rhwymedigaethau eraill mewn trafodiad, nad yw'n effeithio ar yr elw treth na'r elw cyfrifyddu.

Caiff rhwymedigaethau treth ohiriedig eu cydnabod ar gyfer gwahaniaethau dros dro trethadwy sy'n codi ar fuddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chyfranogion a buddiannau mewn cyd-fentrau, ac eithrio pan fo'r grŵp yn gallu rheoli'r broses o wrthdroi'r gwahaniaeth dros dro ac mae'n debygol na fydd y gwahaniaeth dros dro yn gwrthdroi hyd y gellir rhagweld.

Caiff y swm cynnal hwn o asedau treth ohiriedig ei adolygu ar ddyddiad pob mantolen a'i leihau i'r graddau lle na fydd yn debygol mwyach y bydd elw trethadwy digonol ar gael i ganiatáu adfer yr holl ased neu ran ohono.

Caiff treth ohiriedig ei chyfrifo yn unol â'r cyfraddau treth y disgwylir iddynt fod yn berthnasol yn ystod y cyfnod pan fydd y rhwymedigaeth yn cael ei setlo neu pan fydd yr ased yn cael ei sylweddu. Caiff treth ohiriedig ei chodi neu ei chredydu i'r datganiad incwm, ac eithrio pan fydd yn ymwneud ag eitemau a godwyd neu a gredydwyd yn uniongyrchol i ecwiti, ac os felly, rhoddir sylw i'r dreth ohiriedig yn ecwiti hefyd.

Caiff asedau a rhwymedigaethau treth ohiriedig eu gwrthbwyso pan geir hawl y medrir ei gorfodi yn gyfreithiol i osod asedau treth cyfredol yn erbyn rhwymedigaethau treth cyfredol a phan fyddant yn ymwneud â threthi incwm a godir gan yr un awdurdod trethu ac mae'r grŵp yn bwriadu setlo ei rwymedigaethau a'i asedau treth cyfredol ar sail net.

Eiddo, cyfarpar ac offer

Cedwir eiddo, cyfarpar ac offer am y gost yn llai dibrisiant cronedig ac unrhyw golled amhariad cydnabyddedig. Cânt eu dibrisio i'w gwerth gweddillol gan ddefnyddio'r dull llinol yn ystod eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig fel a ganlyn:

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

6. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Gwelliannau i eiddo prydlesol	-	Yn ystod cyfnod y brydles
Cyfarpar a pheiriannau	-	14.3% i 20% llinol
Gosodiadau a ffitiadau	-	15% i 20% llinol
Cerbydau modur	-	20% i 25% llinol
Offer cyfrifiadurol	-	20% i 25% llinol

Caiff asedau sy'n cael eu dal dan brydlesi cyllid eu dibrisio yn ystod eu hoes ddefnyddiol ar yr un sail ag asedau a berchnogir.

Caiff yr ennill neu'r golled sy'n deillio o waredu neu ymddeol ased ei bennu fel y gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a swm cynnal yr ased, a chaiff ei gydnabod yn y datganiad incwm.

Costau datblygu

Caiff gwariant ar weithgareddau ymchwil ei gydnabod fel traul yn ystod y cyfnod y bydd yn codi.

Caiff ased anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol ac sy'n codi o ddatblygiad cynhyrchu y grŵp ei gydnabod os bodlonir yr amodau canlynol yn unig:

- caiff ased ei greu y mae modd ei nodi;
- mae'n debygol y bydd yr ased a grëwyd yn sicrhau buddion economaidd yn y dyfodol; ac
- mae modd mesur cost ddatblygu yr ased mewn ffordd ddibynadwy.

Caiff asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol eu cydnabod ar sail llinol yn ystod eu hoes ddefnyddiol o dair blynedd. Caiff costau datblygu rhaglenni nad ydynt yn bodloni meini prawf IAS 38 "Asedau Anniriaethol", eu dileu i'r datganiad incwm.

Catalog rhaglenni

Caiff buddsoddiadau mewn catalogau rhaglenni eu cyfalafu am y gost yn llai darpariaeth ar gyfer amhariad. Caiff y gost ei hamorteiddio dros dair blynedd, cyfnod disgwyliedig incwm dosbarthu.

Asedau anniriaethol gwahanadwy

Pan wneir caffaeliad, cynhelir adolygiad i nodi asedau anariannol y gellir eu nodi ar wahân ac sy'n bodloni'r diffiniad dan "Asedau anniriaethol" IAS 38. O ran caffaeliadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod ers trosglwyddo i IFRS, cydnabuwyd bod modd nodi perthnasoedd cwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu ar wahân. Pennwyd y gwerth teg ar sail sy'n adlewyrchu'r symiau y byddai'r caffaelwr wedi'u talu am yr asedau mewn trafodion hyd braich rhwng partïon bodlon gwybodus.

Caiff perthnasoedd cwsmeriaid cytundebol eu hamorteiddio yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae gan berthnasoedd cwsmeriaid anghytundebol oes amhenodol ac maent yn destun adolygiad amhariad blynyddol. Caiff cytundebau di-gystadlu eu hamorteiddio yn ystod oes y cytundeb, sef dwy flynedd ar gyfartaledd.

Asedau anniriaethol eraill

Caiff costau caffael hawliau i incwm comisiwn gan gontractau rheoli talent eu hamorteiddio dros dair blynedd, y cyfnod y bydd y grŵp yn cael budd o'r contractau. Caiff costau creu gwefannau masnachol eu hamorteiddio dros ddwy flynedd, sef y cyfnod y bydd y grŵp yn cael budd o'r gwefannau. Caiff costau caffael hawliau cyhoeddi eu cyfalafu a'u hamorteiddio dros 20 mlynedd, sef y cyfnod y bydd y cwmni yn cael budd o'r hawl.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

7. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Amhariad asedau diriaethol ac anniriaethol ac eithrio ewyllys da

Ar ddyddiad pob mantolen, bydd y grŵp yn adolygu symiau cynnal ei asedau diriaethol ac anniriaethol er mwyn pennu a oes unrhyw arwydd bod yr asedau hynny wedi dioddef colled amhariad. Os bydd unrhyw arwyddion o'r fath yn bodoli, caiff swm adferadwy yr ased ei amcangyfrif er mwyn pennu graddau'r golled amhariad (os o gwbl). Pan na fydd yr ased yn sicrhau llif arian sy'n annibynnol ar yr asedau eraill, bydd y grŵp yn amcangyfrif swm adferadwy yr uned gwneud arian y mae'r ased yn perthyn iddi. Caiff ased anniriaethol y mae ganddo oes defnyddiol amhenodol ei brofi am amhariad bob blwyddyn a phryd bynnag y ceir arwydd y gallai'r ased fod yn amharedig.

Swm adferadwy yw'r uchaf o werth teg yn llai costau i'w werthu a gwerth o'i ddefnyddio. Wrth asesu gwerth o'i ddefnyddio, caiff y llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol ei ddisgowntio i'w werth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r ased nad yw'r amcangyfrifon ynghylch llif arian yn y dyfodol wedi cael eu haddasu ar eu cyfer.

Os amcangyfrifir bod swm adferadwy ased (neu uned gwneud arian) yn llai na'i swm cynnal, caiff swm cynnal yr ased (uned gwneud arian) ei ostwng i'w swm adferadwy. Caiff colled amhariad ei gydnabod fel traul yn syth, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gynnal ar swm a ailbrisiwyd ac os felly, caiff y golled amhariad ei thrin fel gostyngiad ailbrisio.

Amhariad asedau diriaethol ac anniriaethol ac eithrio ewyllys da (parhad)

Pan fydd colled amhariad yn cael ei gwrthdroi wedi hyn, caiff swm cynnal yr ased (uned gwneud arian) ei gynyddu i'r amcangyfrif diwygiedig o'i swm adferadwy, ond fel na fydd y swm cynnal uwch yn uwch na'r swm cynnal a fyddai wedi cael ei bennu os na fyddai unrhyw golled amhariad wedi cael ei chydnabod ar gyfer yr ased (uned gwneud arian) yn ystod blynyddoedd blaenorol. Caiff gwrthdroi colled amhariad ei gydnabod fel incwm yn syth, oni bai bod yr ased perthnasol yn cael ei gynnal ar swm a ailbrisiwyd, ac os felly, caiff gwrthdroi y colled amhariad ei drin fel cynnydd ailbrisio.

Buddsoddiadau

Caiff buddsoddiadau mewn is-gwmnïau a chyfranogion eu dal fel asedau anghyfredol a'u nodi am y gost yn llai darpariaeth am unrhyw amhariad.

Stocrestrau

Caiff stocrestrau eu datgan ar yr isaf o'r gwerth sylweddoladwy cost a net. Mae cost yn cynnwys costau pwysig uniongyrchol. Mae gwerth sylweddoladwy net yn cynrychioli'r pris gwerthu amcangyfrifedig yn llai yr holl gostau cwblhau amcangyfrifedig.

Offerynnau ariannol

Caiff asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol eu cydnabod ym mantolen y grŵp pan fo'r grŵp yn ymrwymo i ddarpariaeth gytundebol yr offeryn.

Derbyniadau masnachol

Mesurir derbyniadau masnachol yn unol â chydnabyddiaeth gychwynnol o'u gwerth teg, ac yn dilyn hyn, cânt eu mesur am y gost wedi amorteiddio gan ddefnyddio'r dull cyfradd llog effeithiol. Cydnabyddir lwfansau priodol ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig yn y datganiad incwm pan geir tystiolaeth wrthrychol bod yr ased yn amharedig. Caiff y lwfans a gydnabyddir ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cynnal yr ased a gwerth presennol y llif arian amcangyfrifedig yn y dyfodol wedi'i ddisgowntio yn ôl y gyfradd llog effeithiol a gyfrifiannwyd wrth gydnabod yn gychwynnol.

Arian a chyfwerthoedd arian

Mae arian a chyfwerthoedd arian yn cynnwys arian wrth law a chyfrifon cyfredol sy'n cael eu dal ar alw gan fanciau.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

8. POLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

Symiau taladwy masnachol

I ddechrau, mesurir symiau taladwy masnachol yn ôl eu gwerth teg, ac wedi hyn, cânt eu mesur yn unol â chost wedi'i amorteiddio trwy ddefnyddio dull y cyfradd llog effeithiol.

Offerynnau ecwiti

Cofnodir offerynnau ecwiti a ddosbarthir gan y cwmni fel enillion a gafwyd, net costau dosbarthu uniongyrchol.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau eu cydnabod pan fydd gan y grŵp ymrwymiad presennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol ac mae'n debygol y bydd angen i'r grŵp setlo'r ymrwymiad hwnnw. Mesurir darpariaethau yn unol ag amcangyfrif gorau y cyfarwyddwyr o'r gwariant sy'n angenrheidiol er mwyn setlo'r ymrwymiad ar ddyddiad y fantolen a chânt eu disgowntio i'r gwerth presennol pan fydd yr effaith yn bwysig.

Taliadau wedi'i seilio ar gyfrannau

Mae'r grŵp wedi gweithredu gofynion IFRS 2 "Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau". Yn unol â'r ddarpariaeth drosiannol, gweithredwyd IFRS 2 i'r holl offerynnau dyfarnu ecwiti ar ôl 7 Tachwedd 2002 nad oeddent wedi'u breinio ar 1 Ionawr 2005.

Mae'r grŵp yn dosbarthu taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti, i rai cyflogeion. Mesurir taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti yn ôl eu gwerth teg ar y dyddiad rhoi. Caiff y gwerth teg a bennir ar ddyddiad rhoi'r taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti, ei gostio ar sail llinol yn ystod y cyfnod breinio, wedi'i seilio ar amcangyfrif y grŵp o'r gyfran a fydd yn breinio yn y pen draw.

Caiff gwerth teg ei fesur trwy ddefnyddio model Black Scholes. Mae'r oes ddisgwyliedig a ddefnyddir yn y model wedi cael ei haddasu, ar sail amcangyfrif gorau y rheolwyr, ar gyfer effeithiau dim trosglwyddo, cyfyngiadau ymarfer ac ystyriaethau ymddygiadol.

3. BARNAU CYFRIFYDDU PWYSIG A FFYNONELLAU ALLWEDDOL ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF

Barnau pwysig wrth weithredu polisïau cyfrifyddu y cwmni

Wrth weithredu polisïau cyfrifyddu y cwmni, a ddisgrifir yn nodyn 2, mae'r rheolwyr wedi ffurfio'r barnau canlynol, y maent wedi cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.

Cydnabyddiaeth refeniw

Caiff refeniw cynhyrchu ei gydnabod yn ystod cyfnod y gweithgarwch cynhyrchu cysylltiedig sy'n mynnu bod y rheolwyr yn ystyried y costau sydd wedi codi tan ddyddiad y fantolen ac i amcangyfrif y costau nes i'r cynhyrchu gael ei gwblhau, fel y disgrifiwyd yn nodyn 2.

Wrth ffurfio'r barnau hyn, ystyriodd y rheolwyr y meini prawf manwl ar gyfer cydnabod refeniw a nodwyd yn IAS 18 "Refeniw" ac egwyddorion IAS 11 "Contractau adeiladu" am arweiniad pellach gan ei fod yn berthnasol i refeniw a threuliau. Yn dilyn adolygiad manwl o gontractau cynhyrchu y grŵp, mae'r cyfarwyddwyr yn fodlon bod y gydnabyddiaeth refeniw a adroddwyd yn briodol.

Nodi a mesur asedau anniriaethol ar wahân a gaffaelwyd trwy gyfuno busnes

Mae IFRS 3 "Cyfuniadau Busnes" yn mynnu bod y sawl sy'n caffael yn nodi ased anniriaethol y sawl a gaffaelir ar wahân ar y dyddiad caffael os bydd yn bodloni diffiniad ased anniriaethol yn IAS 38 "Asedau Anniriaethol" ac os oes modd mesur ei werth teg mewn ffordd ddibynadwy.

Mae IAS 38 yn diffinio ased anniriaethol fel 'ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol.'

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

3. BARNAU CYFRIFYDDU PWYSIG A FFYNONELLAU ALLWEDDOL ANSICRWYDD WRTH AMCANGYFRIF (parhad)

Mae ased yn bodloni'r maen prawf ynghylch bod yn adnabyddadwy yn y diffiniad dim ond:

α) os yw'n wahanadwy, h.y. os oes modd ei wahanu neu ei rannu o'r endid a'i werthu, ei drosglwyddo, ei drwyddedu, ei rentu neu ei gyfnewid, yn unigol neu gyda chontract, ased neu rwymedigaeth cysylltiedig; neu

β) os yw'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill, os yw'r hawliau hynny yn drosglwyddadwy neu'n wahanadwy o'r endid neu o hawliau ac ymrwymiadau eraill neu beidio.

Mae IFRS 3 yn mynnu bod y caffaelwr yn pennu gwerth teg asedau anniriaethol trwy gyfeirio at farchnad weithredol yn unol â'r diffiniad yn IAS 38; neu, os na fydd marchnad weithredol yn bodoli, ar sail sy'n adlewyrchu'r symiau y byddai'r caffaelwr wedi'u talu am yr asedau mewn trafodion hyd braich rhwng partïon bodlon gwybodus, ar sail y wybodaeth orau sydd ar gael.

Nodi a mesur asedau anniriaethol ar wahân a gaffaelwyd trwy gyfuno busnes (parhad)

Nodir yr asedau anniriaethol ar wahân a gaffaelir fel rhan o gyfuniadau busnes a wireddir ar ôl trawsnewid i IFRS yn nodyn 12. Amcangyfrifwyd gwerthoedd yr asedau anniriaethol ar wahân ar y sail ganlynol:

Cytundebau di-gystadlu: defnyddio "llif arian wedi'i ddisgowntio"; trwy amcangyfrif y llif arian posibl a allai gael eu colli os na fyddai'r cytundebau wedi bod mewn grym. Mae hyn yn mynnu bod yr endid yn amcangyfrif llif arian yn y dyfodol a chyfradd ddisgowntio addas er mwyn cyfrifo'r gwerth presennol.

Perthnasoedd gyda chwsmeriaid: defnyddio "ymagwedd incwm enillion dros ben"; trwy amcangyfrif y llif arian y disgwylir iddynt gael eu cynhyrchu o'r perthnasoedd net adenillion rhesymol ar asedau eraill yn cyfrannu at y ffrwd llif arian hwnnw hefyd, wedi'i ddisgowntio yn unol â chyfradd adenillion briodol. Mae hyn yn mynnu bod yr endid yn amcangyfrif llif arian yn y dyfodol a chyfradd ddisgowntio addas er mwyn cyfrifo'r gwerth presennol.

Mae pennu oes economaidd ddefnyddiol asedau anniriaethol sy'n deillio o gyfuniadau busnes yn gofyn am amcangyfrif. Ystyrir bod hyd oes perthnasoedd anghytundebol cwsmeriaid gyda darlledwyr yn amhenodol, ac maent yn destun adolygiad amhariad blynyddol.

Amhariad ewyllys da

Mae'r grŵp yn profi am amhariad yn flynyddol neu'n amlach na hynny os ceir arwyddion y gallai ewyllys da gael ei amharu.

Caiff swm adferadwy yr ewyllys da ei bennu o gyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio. Yr amcangyfrifon a'r rhagdybiaethau allweddol ar gyfer y cyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio yw'r rhai sy'n ymwneud â'r cyfraddau disgowntio, cyfraddau twf a newidiadau disgwyliedig i werthiannau yn ystod y cyfnod. Mae rheolwyr yn amcangyfrif cyfraddau disgowntio trwy ddefnyddio cyfraddau cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau cyfredol y farchnad o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r unedau gwneud arian.

Mae'r grŵp yn paratoi rhagolygon llif arian sy'n deillio o'r cyllidebau ariannol diweddaraf a gymeradwywyd

gan y rheolwyr (sy'n ystyried gwaith cynhyrchu nesaf y grŵp, profiad blaenorol a'r rhagolygon ynghylch twf y diwydiant) am y dair blynedd nesaf, gan allosod llif arian ar gyfer y saith mlynedd ddilynol wrth dybio y ceir twf blynyddol o 2.5% y flwyddyn o'r dyddiad hwnnw.

Amcangyfrif taliadau cydnabyddiaeth wrth gefn gohiriedig yn y dyfodol

O ddyddiad mantolen 31 Mai 2010, mae'r grŵp wedi cofnodi taliadau amcangyfrifedig yn y dyfodol sy'n ymwneud â chaffael Indus Films Limited. Ar ôl eu disgowntio i'w gwerth presennol, amcangyfrifir mai £0.8 miliwn yw cyfanswm y taliadau hyn, a chaiff y swm hwnnw ei adlewyrchu yn y fantolen ar 31 Mai 2010. Gan bydd y taliadau yn ddibynnol ar berfformiad ariannol go iawn y busnes yn y dyfodol, mae angen nodi amcangyfrif yn unol ag amodau busnes bras yn y dyfodol.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

4. CYLCHRANNAU DAEARYDDOL A BUSNES

Yn 2010, mabwysiadodd y grŵp 'Gylchrannau Gweithredol' IFRS 8. Mae effaith y safon cyfrifyddu yn hollol gyflwyniadol. Prif weithgarwch y grŵp yw cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Ar 31 Mai 2010, mae'r grŵp wedi'i drefnu yn un cylchran fusnes. Seiliwyd hyn ar strwythur trefniadaeth a rheoli mewnol y Grŵp a'r ffordd sylfaenol y darparir gwybodaeth ariannol ar gyfer y Prif Benderfynydd Gweithredol. Diffiniwyd y Prif Benderfynydd fel Bwrdd y Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Gan bod y grŵp yn gweithredu mewn un cylchran fusnes yn unig, ni ddangoswyd unrhyw ddadansoddiad cylchrannol busnes ychwanegol.

Lleolir yr holl weithgareddau busnes yn y DU, felly mae'r grŵp yn gweithredu o fewn un cylchran ddaearyddol.

Mae gan y grŵp ddau brif gwsmer, y BBC ac S4C, y maent ar lefel unigol yn gyfrifol am fwy na 10% o refeniw y grŵp. Cyfanswm y refeniw yn ystod y flwyddyn gan y ddau gwsmer hwn oedd £19,297,000 (2009 - £17,761,000) sy'n cynrychioli 90% (2009 - 90%) o gyfanswm refeniw y grŵp.

5. ELW GWEITHREDOL

	2010 £'000	2009 £'000
Cyrhaeddwyd fan hyn ar ôl codi tâl/(credydu)		
Grantiau llywodraeth – cyfalaf	(117)	(165)
Grantiau llywodraeth – refeniw	(87)	(25)
Dibrisiant eiddo, cyfarpar ac offer		
- asedau a berchenogir	276	254
- asedau a brydlesir	170	142
Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol	61	68
Colled/(elw) o werthu eiddo, cyfarpar ac offer	2	(37)
Costau staff (gweler nodyn 6)	5,373	4,580
Cydnabyddiaeth archwilwyr – gwasanaethau archwilio	46	44
Cydnabyddiaeth archwilwyr – gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio	13	21

	£'000	£'000
Cydnabyddiaeth archwilwyr		
Mae'r dadansoddiad o gydnabyddiaeth archwilwyr fel a ganlyn:		
Ffioedd i'w talu i archwilwyr y cwmni am archwilio cyfrifon blynyddol y grŵp	22	20
Ffioedd i'w talu i archwilwyr y cwmni am archwilio cyfrifon blynyddol y cwmni	24	24
Cyfanswm y ffioedd archwilio	46	44
Gwasanaethau eraill:		
Gwasanaethau cynghori ynghylch treth	-	6
Gwasanaethau cydymffurfio â threth	13	15
Cyfanswm y ffioedd nad ydynt am wasanaethau archwilio	13	21

Nid oes angen datgelu'r ffioedd sy'n daladwy i Deloitte LLP a'u cyfranogion am wasanaethau i'r cwmni nad ydynt yn wasanaethau archwilio, gan bod yn rhaid i'r datganiadau ariannol ddatgelu ffioedd o'r fath ar sail gyfunol.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

6. GWYBODAETH YNGHYLCH CYFARWYDDWYR A CHYFLOGEION

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Tâl cyfarwyddwyr (cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol)				
Tâl	405	384	405	384
Cyfraniadau i gynlluniau pensiwn buddsoddi arian	26	25	26	25
Buddion ar ffurf rhoddion eraill	17	22	17	22
	448	431	448	431

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y cyfarwyddwyr yn dal 86,566 o opsiynau dros ben (2009 – 86,566). Ni weithredwyd unrhyw opsiynau cyfrannau gan y cyfarwyddwyr yn ystod y flwyddyn (2009 - £dim). Mae'r manylion fel a ganlyn:

	Cyflog sylfaenol £'000	Buddion ar ffurf rhoddion £'000	Pensiwn cyfraniad diffiniedig £'000	Cyfanswm 2010 £'000	Cyfanswm 2009 £'000
Huw Eurig Davies	111	12	10	133	152
Mark Fenwick	97	8	9	114	122
Gareth Rees	82	12	7	101	92
Richard Huntingford	60	-	-	60	25
Roger Moore	20	-	-	20	20
Linda James	20	-	-	20	20
	390	32	26	448	431

	Grŵp Nifer	Grŵp Nifer	Cwmni Nifer	Cwmni Nifer
Nifer y cyfarwyddwyr yn y cynllun pensiwn cyfraniad diffiniedig	3	3	3	3

	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Nifer cyfartalog yr unigolion cyflogedig (gan gynnwys cyfarwyddwyr)				
Cyfarwyddwyr	6	6	6	6
Cynhyrchu	121	102	94	76
Gweinyddu	13	6	2	2
	140	114	102	84

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

6. GWYBODAETH YNGHYLCH CYFARWYDDWYR A CHYFLOGEION (parhad)

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Costau staff yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys cyfarwyddwyr)				
Cyflogau ac enillion	4,759	4,020	3,237	2,683
Costau nawdd cymdeithasol	490	433	338	292
Costau pensiwn	116	104	65	59
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	8	23	8	23
	5,373	4,580	3,648	3,057

7. REFENIW BUDDSODDI

	2010 £'000	2009 £'000
Llog ar adneuon banc	3	25

8. COSTAU CYLLID

	2010 £'000	2009 £'000
Llog ar ymrwymiadau dan brydlesi cyllid a chontractau hurbrynu	39	46
Llog arall a thaliadau tebyg	6	5
Taliadau cyllid cydnabyddiaeth ohiriedig	31	20
	76	71

9. CYFRIF ELW A CHOLLED Y CWMNI

Yn unol â'r hyn a ganiateir gan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006, mae'r cwmni wedi dewis peidio cyflwyno'i gyfrif elw a cholled ei hun ar gyfer y flwyddyn. Adroddodd Boomerang Plus Ccc elw o £1,185,000 (2009 - £771,000) ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

10. TRETH AR ELW AR WEITHGAREDDAU ARFEROL

	Nodyn	2010 £'000	2009 £'000
Treth gyfredol			
Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig:			
Treth gyfredol o 28% ar yr incwm ar gyfer y flwyddyn (2009 - 28%)		100	194
Addasiad o ystyried blynyddoedd blaenorol		3	-
Cyfanswm y dreth gyfredol		103	194
Treth ohiriedig			
Cychwyniad a gwrthdroad gwahaniaethau amseru		115	13
	19	115	13
Cyfanswm y tâl ar gyfer y flwyddyn		218	207

Mae'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm y treth a nodir uchod a'r swm sy'n cael ei gyfrifo trwy weithredu cyfradd safonol treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig i'r elw cyn treth, fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Elw ar weithgareddau arferol cyn treth	535	1,094
Treth ar elw ar weithgareddau arferol cyn treth o 28% (2009 - 28%)	150	306
Ffactorau sy'n effeithio ar y tâl ar gyfer y flwyddyn		
Treuliau nad ydynt yn dynadwy at ddibenion treth	27	34
Taliadau amhariad ac amorteiddiad nad ydynt yn dynadwy	25	6
Lwfansau cyfalaf (dros)/yn llai na dibrisiant	(103)	17
Colledion treth	23	7
Arall	(20)	(8)
Cymorth ymylol	-	(2)
Addasiad credyd treth Ffilm y DU	-	(166)
Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	3	-
Cychwyniad a gwrthdroad gwahaniaethau amseru	(2)	-
Cyfanswm y tâl treth ar gyfer y flwyddyn	103	194

Mae credyd o £219,000 yn cael ei gynnwys o fewn y tâl treth cyfredol yn 2009. Mae hwn yn ymwneud â'r credyd treth Ffilm y DU a enillwyd o fewn Boom Films Limited, is-gwmni.

Ni ragwelir y bydd y gostyngiad yng nghyfradd y dreth gorfforaeth o 28% i 27% o 1 Ebrill 2011 yn cael effaith o bwys ar y taliad treth.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

11. ENILLION FESUL CYFRAN

Seiliwyd y broses o gyfrifo'r enillion sylfaenol, gwanedig ac addasedig fesul cyfran ar y data canlynol:

	2010 £'000	2009 £'000
Enillion		
Elw ar gyfer y flwyddyn	317	887
Treuliau gweinyddol eithriadol	73	66
Amorteiddiad asedau anniriaethol yn deillio o gaffaeliadau busnes	20	21
Darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiadau	70	-
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	7	23
Elw addasedig	487	997
Nifer y cyfrannau	**Nifer**	**Nifer**
Nifer cyfartalog cymhwysol y cyfrannau cyffredin at ddibenion enillion sylfaenol fesul cyfran	8,911,902	8,903,478
Effaith cyfrannau cyffredin posibl gwanhaol:		
Opsiynau cyfrannau	153,798	238,178
Nifer y cyfrannau cyfartalog cymhwysol gwanhaol	9,065,700	9,141,656
Enillion fesul cyfran cyffredin – sylfaenol	3.56c	9.96c
Enillion fesul cyfran cyffredin – gwanedig	3.50c	9.70c
Enillion addasedig fesul cyfran – sylfaenol	5.47c	11.20c
Enillion addasedig fesul cyfran – gwanedig	5.38c	10.91c

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

12. EWYLLYS DA AC ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL ERAILL

Grŵp	Ewyllys da £'000	Perthnasoedd gyda chwsmeriaid £'000	Cytundebau di-gystadlu £'000	Catalog Rhaglenni £'000	Arall £'000	Hawliau cyhoeddi £'000	Cyfanswm £'000
Cost							
Ar 1 Mehefin 2008	2,108	1,197	37	46	74	-	3,462
Ychwanegiadau	23	-	-	-	-	-	23
Ar 1 Mehefin 2009	2,131	1,197	37	46	74	-	3,485
Ychwanegiadau	918	862	24	-	-	458	2,262
Gwarediadau	-	-	-	-	(59)	-	(59)
Ar 31 Mai 2010	3,049	2,059	61	46	15	458	5,688
Amorteiddiad							
Ar 1 Mehefin 2008	-	66	28	4	27	-	125
Tâl ar gyfer y flwyddyn	-	12	9	12	35	-	68
Ar 1 Mehefin 2009	-	78	37	16	62	-	193
Tâl ar gyfer y flwyddyn (*)	-	16	4	12	12	17	61
Gwaredu yn ystod y flwyddyn	-	-	-	-	(59)	-	(59)
Ar 31 Mai 2010	-	94	41	28	15	17	195
Swm cynnal							
Ar 31 Mai 2010	3,049	1,965	20	18	-	441	5,493
Ar 31 Mai 2009	2,131	1,119	-	30	12	-	3,292

(*) Mae amorteiddiad asedau anniriaethol sy'n codi ar gaffaeliadau busnes o £20,000 (2009 -£21,000) yn ymwneud ag amorteiddiad perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu.

Ewyllys da, perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu

Mae ewyllys da, perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu yn codi wrth gaffael (cyfuniad busnes). Mae perthnasoedd anghytundebol o £1,893,000 (2009 - £1,035,000) yn cael eu cynnwys ym mherthnasoedd gyda chwsmeriaid. Mae'r perthnasoedd hyn yn allweddol i ddyfodol y busnesau perthnasol yn y tymor hir, felly bernir bod ganddynt oes amhenodol a'u bod yn destun adolygiad amhariad blynyddol. Caiff perthnasoedd cytundebol gyda chwsmeriaid eu hamorteiddio yn ystod oes y contract sy'n bodoli eisoes, sef blwyddyn. Caiff cytundebau di-gystadlu eu hamorteiddio yn ystod oes y cytundeb, sy'n ddwy flynedd ar gyfartaledd.

Mae ychwanegiadau i ewyllys da, perthnasoedd gyda chwsmeriaid a chytundebau di-gystadlu yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â chaffael Indus Films Limited. Gweler nodyn 25 am fanylion pellach.

Mae ychwanegiadau i hawliau cyhoeddi yn ymwneud â chaffael yr hawliau cyhoeddi i Gylchgrawn Method.

Caiff ewyllys da a pherthnasoedd anghytundebol sy'n cael eu caffael mewn cyfuniad busnes eu neilltuo wrth eu caffael i'r unedau gwneud arian ("UGAau") y disgwylir iddynt elwa o'r cyfuniad busnes. Cyn cydnabod unrhyw golledion amhariad, mae swm cynnal yr ewyllys da a'r perthnasoedd anghytundebol wedi cael ei neilltuo fel a ganlyn:

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

12. EWYLLYS DA AC ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL ERAILL (parhad)

	2010 £'000	2009 £'000
Ewyllys da		
Boomerang	1,835	1,835
Mwnci Cyfyngedig	296	296
Indus Films Limited	918	-
	3,049	2,131

	£'000	£'000
Perthnasoedd gyda chwsmeriaid anghytundebol		
Boomerang	1,035	1,035
Indus Films Limited	858	-
	1,893	1,035

Mae UGA "Boomerang" yn cynnwys Fflic Cyfyngedig, Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig a Ffilmiau Apollo Cyfyngedig gan bod hwn yn cael ei weithredu fel un uned fusnes.

Mae'r grŵp yn profi ewyllys da a pherthnasoedd cwsmeriaid anghytundebol bob blwyddyn am amhariad, neu'n amlach na hynny os ceir arwyddion y gallai ewyllys da gael ei amharu.

Pennir symiau adferadwy UGAau o gyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio. Y tybiaethau allweddol ar gyfer y cyfrifiadau gwerth wrth ddefnyddio yw'r rhai sy'n ymwneud â'r cyfraddau disgowntio, cyfraddau twf a newidiadau disgwyliedig i brisiau gwerthu a chostau uniongyrchol yn ystod y cyfnod. Mae'r rheolwyr yn amcangyfrif cyfraddau disgowntio trwy ddefnyddio cyfraddau cyn-treth sy'n adlewyrchu asesiadau marchnad presennol o werth amser arian a'r risgiau penodol i'r UGAau. Seiliwyd y cyfraddau twf ar ragolygon ynghylch twf y diwydiant. Seiliwyd newidiadau mewn prisiau gwerthu a chostau uniongyrchol ar arferion gorau a'r disgwyliadau ynghylch newidiadau yn y farchnad yn y dyfodol.

Mae'r grŵp yn paratoi rhagolygon llif arian sy'n deillio o'r cyllidebau ariannol diweddaraf a gymeradwywyd gan y rheolwyr am y dair blynedd nesaf, gan allosod llif arian ar gyfer y saith mlynedd ddilynol ar sail cyfradd amcangyfrifedig y ceir twf o 2.5% y flwyddyn. Nid yw'r gyfradd hon yn uwch na'r gyfradd twf tymor hir cyfartalog ar gyfer y marchnadoedd perthnasol. Y gyfradd a ddefnyddiwyd i ddisgowntio'r llif arian a ragolygwyd ar gyfer pob un o'r UGAau fel y'u diffiniwyd uchod oedd 12%.

Catalog rhaglenni

Mae catalog rhaglenni yn ymwneud â'r buddsoddiad mewn rhaglenni sy'n cael eu dal at ddibenion dosbarthu.

Asedau anniriaethol eraill

Mae asedau sefydlog anniriaethol eraill yn ymwneud ag incwm hawliau comisiwn o gontractau rheoli talent a'r costau o greu gwefannau masnachol.

Hawliau cyhoeddi

Caiff hawliau cyhoeddi eu cyfalafu a'u hamorteiddio dros 20 mlynedd, sef y cyfnod y bydd y cwmni yn cael budd o'r hawl.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

12. EWYLLYS DA AC ASEDAU SEFYDLOG ANNIRIAETHOL ERAILL (parhad)

Cwmni	Ewyllys da £'000	Catalog rhaglenni £'000	Cyfanswm £'000
Cost			
Ar 1 Mehefin 2008 ac 1 Mehefin 2009	-	25	25
Trosglwyddo o gwmni grŵp	-	20	20
Trosglwyddo o fuddsoddiadau	1,270	-	1,270
Ar 31 Mai 2010	1,270	45	1,315
Amorteiddiad			
Ar 1 Mehefin 2008	-	4	4
Tâl ar gyfer y flwyddyn	-	3	3
Ar 1 Mehefin 2009	-	7	7
Trosglwyddo o gwmni grŵp	-	8	8
Tâl ar gyfer y flwyddyn	-	12	12
Ar 31 Mai 2010	-	27	27
Swm cynnal			
Ar 31 Mai 2010	1,270	18	1,288
Ar 31 Mai 2009	-	18	18

Mae'r trosglwyddiad i ewyllys da yn ymwneud ag ailddosbarthiad buddsoddiad yng Nghynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig o fuddsoddiadau i ewyllys da ar ôl trosglwyddo'r holl gontractau newydd i Boomerang Plus Ccc.

Mae UGA "Boomerang" yn cynnwys Fflic Cyfyngedig, Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig a Ffilmiau Apollo Cyfyngedig gan bod hwn yn cael ei weithredu fel un uned fusnes. Mae'r ystyriaeth ar gyfer amhariad yr ewyllys da yn unol â'r hyn a nodir ar dudalennau 33 a 34.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

13. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER

Grŵp	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Ffitiadau a gosodiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
Cost						
Ar 1 Mehefin 2008	382	1,531	344	110	171	2,538
Ychwanegiadau	9	364	5	9	50	437
Gwarediadau	-	(127)	-	(54)	-	(181)
Ar 1 Mehefin 2009	391	1,768	349	65	221	2,794
Ychwanegiadau	58	1,492	26	26	52	1,654
Gwarediadau	-	-	-	(9)	-	(9)
Caffael is-gwmni	-	97	40	-	59	196
Ar 31 Mai 2010	449	3,357	415	82	332	4,635
Dibrisiant						
Ar 1 Mehefin 2008	70	543	114	69	80	876
Tâl ar gyfer y flwyddyn	33	241	64	14	44	396
Rhyddhau wrth waredu	-	(118)	-	(46)	-	(164)
Ar 1 Mehefin 2009	103	666	178	37	124	1,108
Tâl ar gyfer y flwyddyn	33	286	60	12	55	446
Rhyddhau wrth waredu	-	-	-	(6)	-	(6)
Caffael is-gwmni	-	85	29	-	42	156
Ar 31 Mai 2010	136	1,037	267	43	221	1,704
Gwerth llyfr net						
Ar 31 Mai 2010	313	2,320	148	39	111	2,931
Ar 31 Mai 2009	288	1,102	171	28	97	1,686

Wedi'i gynnwys o fewn y gwerth llyfr net o £2,931,000 (2009 - £1,686,000) y mae'r asedau canlynol, sy'n cael eu dal dan gytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid:

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Ffitiadau a gosodiadau £'000	Cerbydau Modur £'000	Cyfanswm £'000
Ar 31 Mai 2010	29	1,882	3	41	1,955
Ar 31 Mai 2009	32	805	-	25	862

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

13. EIDDO, CYFARPAR AC OFFER (parhad)

Cwmni	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Ffitiadau a gosodiadau £'000	Cerbydau modur £'000	Offer cyfrifiadurol £'000	Cyfanswm £'000
Cost						
Ar 1 Mehefin 2008	277	1,245	249	88	119	1,978
Ychwanegiadau	8	360	3	9	48	428
Gwarediadau	-	(127)	-	(39)	-	(166)
Ar 1 Mehefin 2009	285	1,478	252	58	167	2,240
Ychwanegiadau	49	1,341	22	27	46	1,485
Ar 31 Mai 2010	334	2,819	274	85	213	3,725
Dibrisiant						
Ar 1 Mehefin 2008	38	449	169	55	51	762
Tâl ar gyfer y flwyddyn	19	187	23	11	34	274
Rhyddhau wrth waredu	-	(118)	-	(34)	-	(152)
Ar 1 Mehefin 2009	57	518	192	32	85	884
Tâl ar gyfer y flwyddyn	19	225	16	12	37	309
Ar 31 Mai 2010	76	743	208	44	122	1,193
Gwerth llyfr net						
Ar 31 Mai 2010	258	2,076	66	41	91	2,532
Ar 31 Mai 2009	228	960	60	26	82	1,356

Wedi'i gynnwys o fewn y gwerth llyfr net o £2,532,000 (2009 - £1,356,000) y mae'r asedau canlynol, sy'n cael eu dal dan gytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid:

	Gwelliannau i eiddo prydlesol £'000	Cyfarpar a pheiriannau £'000	Cerbydau Modur £'000	Cyfanswm £'000
Ar 31 Mai 2010	29	1,767	41	1,837
Ar 31 Mai 2009	32	717	25	774

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

14. BUDDSODDIADAU

Grŵp	Buddsoddiad mewn cyd-fentrau £'000	Buddsoddiad mewn cyfranogion £'000	Buddsoddiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost				
Ar 1 Mehefin 2008	54	102	70	226
Caffaeliadau yn ystod y flwyddyn	-	27	-	27
Cyfran o'r (colled)/elw	(10)	6	-	(4)
Ar 1 Mehefin 2009	44	135	70	249
Caffaeliadau	-	325	-	325
Dileu buddsoddiad mewn cyfrannog	-	(102)	-	(102)
Cyfran o'r elw/(colled)	33	(64)	-	(31)
Ar 31 Mai 2010	77	294	70	441
Amhariad ac amorteiddiad				
Ar 1 Mehefin 2008 ac 1 Mehefin 2009	-	102	-	102
Amhariad yn ystod y flwyddyn	-	-	70	70
Dileu buddsoddiad mewn cyfrannog	-	(102)	-	(102)
Ar 31 Mai 2010	-	-	70	70
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mai 2010	77	294	-	371
Ar 31 Mai 2009	44	33	70	147

Yn ystod y flwyddyn, buddsoddodd y grŵp £325,000, gan sicrhau 25% o'r cyfrannau yn Big Freeze Limited.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

14. BUDDSODDIADAU (parhad)

Cwmni	Buddsoddiad mewn cyfranogion £'000	Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau £'000	Cyfanswm £'000
Cost			
Ar 1 Mehefin 2008	102	4,757	4,859
Addasiadau	-	22	22
Dileu buddsoddiad mewn cyfranogion	(102)	-	(102)
Ar 1 Mehefin 2009	-	4,779	4,779
Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn	326	1,963	2,289
Trosglwyddo i ewyllys da	-	(1,270)	(1,270)
Ar 31 Mai 2010	326	5,472	5,798
Amhariad ac amorteiddiad			
Ar 1 Mehefin 2008	102	-	102
Dileu buddsoddiad mewn cyfranogion	(102)	-	(102)
Ar 1 Mehefin 2009 a 31 Mai 2010	-	-	-
Gwerth llyfr net			
Ar 31 Mai 2010	326	5,472	5,798
Ar 31 Mai 2009	-	4,779	4,779

Gwelwyd y cwmni yn caffael Indus Films Limited yn ystod y flwyddyn. Gweler nodyn 25 am wybodaeth bellach.

Trosglwyddwyd y buddsoddiad mewn perthynas â Chynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig i ewyllys da gan bod masnach y cwmni a oedd yn weddill wedi cael ei ddosrannu i Boomerang Plus Ccc ar 1 Mehefin 2009.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

14. BUDDSODDIADAU (parhad)

Mae buddsoddiadau'r cwmni mewn cwmnïau grŵp yn ymwneud â:

Is-gwmnïau	Daliad (cyfrannau cyffredin £1)	Gweithgarwch	Gwlad gorffori
Fflic Cyfyngedig	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Cynhyrchiadau Boomerang Cyfyngedig	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig*	100%	Segur	Cymru
218 Holdings Limited	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Mwnci Cyfyngedig*	100%	Ôl-gynhyrchu	Cymru
Ffilmiau Apollo Cyfyngedig	100%	Cwmni daliannol	Cymru
Teledu Apollo Cyfyngedig*	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Boom Films Limited	100%	Ffilmiau Theatrig	Cymru
Boom Freesports Limited	88%	Rheoli hawliau	Cymru
Boom Talent Limited	51%	Rheoli talent	Cymru
Indus Films Limited	100%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Boom Extreme Publishing Limited	75%	Cyhoeddi amlgyfrwng	Cymru
Cyd-fentrau			
Hanner:Hanner Cyfyngedig*	50%	Cynhyrchu rhaglenni teledu	Cymru
Adnoddau Zoom Cyfyngedig*	50%	Cyfleusterau teledu	Cymru
Calon/Boom JV Limited*	50%	Dosbarthu	Cymru
Cyfranogion			
Media4Enterprises Limited*	40%	Cwmni daliannol	Cymru
Media4Creative Limited*	40%	Addysg, hyfforddiant a chynhyrchu yn y cyfryngau	Cymru
Big Freeze Limited	25%	Cynhyrchu digwyddiadau	Lloegr

*yn cael ei ddal yn anuniongyrchol.

15. STOCRESTRAU

Grŵp	2010 £'000	2009 £'000
Defnyddiau traul	9	-

16. ASEDAU ARIANNOL ERAILL

Masnach a derbyniadau eraill

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Derbyniadau masnach	1,846	1,354	745	644
Derbyniadau eraill	447	1,070	1,516	1,361
Blaendaliadau ac incwm cronedig	1,865	1,201	1,349	1,028
	4,158	3,625	3,610	3,033

Prif asedau ariannol y grŵp a'r cwmni yw arian a chyfwerthoedd arian, derbyniadau masnach a derbyniadau eraill.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

16. ASEDAU ARIANNOL ERAILL (parhad)

Masnach a derbyniadau eraill (parhad)

Derbyniadau masnach

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymrwyd ar werthiannau grŵp oedd 27 diwrnod (2009 – 22 diwrnod). Gwnaethpwyd lwfans ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o £59,000 (2009 - £15,000) wedi'i seilio ar adolygiad penodol o bob derbyniad masnach. Y symudiad yn ystod y flwyddyn yw'r tâl datganiad incwm ar gyfer y flwyddyn. £1,905,000 (2009 - £1,369,000) oedd gwerth y derbyniadau masnach gros.

Y cyfnod credyd cyfartalog a gymrwyd ar werthiannau cwmni oedd 18 diwrnod (2009 – 16 diwrnod). Gwnaethpwyd lwfans ar gyfer symiau anadferadwy amcangyfrifedig o £4,000 (2009 - £dim) wedi'i seilio ar adolygiad penodol o bob derbyniad masnach. £749,000 (2009 - £644,000) oedd gwerth y derbyniadau masnach gros.

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cynnal masnach a derbyniadau eraill yn agos at eu gwerth teg.

Mae risg credyd y grŵp i'w briodoli i'w fasnach a'i dderbyniadau eraill yn bennaf. Mae'r symiau a gyflwynir yn y fantolen yn net lwfansau ar gyfer derbyniadau ansicr, a amcangyfrifwyd gan reolwyr y grŵp ar sail profiad blaenorol a'u hasesiad o'r amgylchedd economaidd cyfredol. Ceir dwysâd o ran risg credyd derbyniadau gyda phrif gwsmer y grŵp, S4C.

Ar 31 Mai 2010, roedd gwerth £1,304,000 (2009 - £463,000) o dderbyniadau masnach o fewn amodau talu safonol y grŵp o 30 diwrnod a gwerth £409,000 (2009 - £159,000) o dderbyniadau masnach o fewn amodau talu safonol y cwmni. Cred y cyfarwyddwyr nad oes angen gwneud unrhyw ddarpariaeth bellach ar gyfer amhariad. Ym malans derbyniadau masnach y grŵp a'r cwmni, cynhwysir dyledwyr y mae eu dyddiad dyledus wedi mynd heibio ar y dyddiad adrodd, ond nad yw'r grŵp wedi gwneud darpariaeth amhariad ar eu cyfer. Mae mwyafrif y symiau hyn yn ddyledus o ganlyniad i waith papur heb ei gwblhau ac sy'n ymwneud â rhaglen ac o'r herwydd, bernir bod y symiau yn adferadwy o hyd.

Mae oedran derbyniadau masnach y mae eu dyddiad dyledus wedi mynd heibio ond na ystyrir bod amhariad yn effeithio arnynt, fel a ganlyn:

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Llai na thri mis	446	456	281	302
Tri mis i chwe mis	20	155	9	126
Chwe mis i flwyddyn	51	42	32	15
Dros flwyddyn	25	238	14	42
	542	891	336	485

Mae swm cynnal yr asedau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol, sy'n net o golledion amhariad, yn cynrychioli dinoethiad mwyaf y grŵp i risg credyd.

Derbyniadau eraill

Nid yw derbyniadau eraill yn cynnwys unrhyw symiau gydag amhariad neu unrhyw symiau y mae'r dyddiad dyledus wedi mynd heibio. Mae derbyniadau eraill y grŵp yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan gyd-fentrau yn bennaf ac mae symiau derbyniadau eraill y cwmni yn cynnwys symiau sy'n ddyledus gan gwmnïau grŵp yn bennaf (gweler nodyn 28 am fanylion pellach).

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

16. ASEDAU ARIANNOL ERAILL (parhad)

Arian a chyfwerthoedd arian

Mae'r rhain yn cynnwys arian wrth law ac adneuon sy'n cael eu dal ar alw gan fanciau. Mae swm cynnal yr asedau hyn yn agos at eu gwerth teg. Mae gan y grŵp warantau cyfansawdd gyda chwmnïau o fewn y grŵp, sy'n cynrychioli rhwymedigaethau wrth gefn. Y gwarant ar ddiwedd y flwyddyn yw £519,000 (2009 - £185,000).

Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol yn gyfyngedig oherwydd er bod mwyafrif cronfeydd hylifol yn cael eu dal gyda phrif fancwyr y grŵp, Coutts, maent yn cael eu dal gan wrthbartïon amrywiol eraill hefyd, y maent oll yn fanciau y mae ganddynt statws credyd uchel, a neilltuwyd gan yr asiantaethau statws credyd rhyngwladol. Ni cheir dwysâd sylweddol o ran risg credyd ar gronfeydd hylifol.

17. CAEL A RHOI BENTHYCIADAU SY'N DWYN LLOG

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Rhwymedigaethau cyfredol				
Cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid	492	307	460	303
Rhwymedigaethau nad ydynt yn rhai cyfredol				
Cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid	742	175	681	175

Mae'r rhwymedigaethau hurbrynu a phrydlesi cyllid i'w had-dalu fel a ganlyn:

	£'000	£'000	£'000	£'000
Cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid				
Cyn pen blwyddyn	492	307	460	303
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	405	146	369	146
Rhwng dwy a phum mlynedd	337	29	312	29
	1,234	482	1,141	478

Caiff ymrwymiadau dan gontractau hurbrynu a phrydlesi cyllid eu sicrhau ar yr asedau cysylltiedig. Gweler nodyn 20 am fanylion pellach ynghylch contractau prydlesi cyllid.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

18. RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL ERAILL

Masnach a symiau taladwy eraill

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Rhwymedigaethau cyfredol				
Symiau taladwy masnach	830	315	349	189
Treth arall a nawdd cymdeithasol	1,018	401	433	238
Credydwyr eraill	40	79	37	71
Croniadau ac incwm gohiriedig	2,727	1,311	1,070	627
	4,615	2,106	1,889	1,125
Rhwymedigaethau nad ydynt yn rhai cyfredol				
Credydwyr eraill	47	17	47	17

Mae symiau taladwy masnach yn cynnwys symiau sy'n ddyledus at ddibenion masnach a chostau parhaus yn bennaf. Y cyfnod credyd cyfartalog ar gyfer pryniannau masnach yw 17 diwrnod (2009 – 7 diwrnod) ar gyfer y grŵp ac 13 diwrnod (2009 – 6 diwrnod) ar gyfer y cwmni. Nid oes unrhyw symiau taladwy masnach y mae'r dyddiad dyledus wedi mynd heibio ar eu cyfer, yn bodoli ar gyfer y grŵp na'r cwmni. Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn bod swm cynnal masnach a symiau taladwy eraill yn agos at eu gwerth teg ar gyfer y grŵp a'r cwmni. Bydd y symiau masnach sy'n daladwy, treth arall a nawdd cymdeithasol yn cael eu setlo yn ystod y flwyddyn i ddod. Caiff rhwymedigaethau ariannol y grŵp a'r cwmni eu cynnal am y gost wedi'u hamorteiddio.

19. TRETH OHIRIEDIG

Mae'r canlynol yn cyfateb â'r prif rwymedigaethau treth ohiriedig a'r asedau a gydnabyddir gan y grŵp a'r cwmni a symudiadau gyda hynny yn ystod y cyfnod adrodd cyfredol a blaenorol.

	Lwfansau cyfalaf cyflymedig £'000	Gwahaniaethau amseru tymor byr '000	Cyfanswm £'000
Grŵp			
Balans ar 1 Mehefin 2008	104	(1)	103
Tâl i'r datganiad incwm	13	-	13
Balans ar 1 Mehefin 2009	117	(1)	116
Caffael is-gwmni	1	-	1
Tâl i'r datganiad incwm	114	1	115
Ar 31 Mai 2010	232	-	232
	£'000	**£'000**	**£'000**
Cwmni			
Balans ar 1 Mehefin 2008	89	(1)	88
Tâl i'r datganiad incwm	28	-	28
Balans ar 1 Mehefin 2009	117	(1)	116
Tâl i'r datganiad incwm	110	1	111
Ar 31 Mai 2010	227	-	227

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

20. YMRWYMIADAU DAN BRYDLESI CYLLID

	Isafswm y taliadau prydles			
	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Symiau sy'n daladwy dan brydlesi cyllid:				
Cyn pen blwyddyn	526	333	489	328
Yn ystod yr ail flwyddyn i'r bumed flwyddyn	762	182	699	182
Cyfanswm gwerth ymrwymiadau prydlesi	1,288	515	1,188	510
Yn llai: taliadau cyllid yn y dyfodol	(54)	(33)	(47)	(32)
Gwerth presennol ymrwymiadau prydlesi	1,234	482	1,141	478

Mae'n bolisi gan y grŵp brydlesu eiddo, cyfarpar a pheiriannau penodol dan brydlesi cyllid. Hyd cyfartalog y prydlesi yw tair blynedd. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010, y gyfradd fenthyca effeithiol gyfartalog oedd 6.8% (2009 - 8.1%). Caiff cyfraddau llog eu gosod ar ddyddiad y contract. Mae'r holl brydlesi yn cael eu gwneud ar sail ad-dalu sefydlog ac ni ymrwymwyd i unrhyw drefniadau ar gyfer ad-daliadau rhent amodol. Mae swm cynnal y benthyciadau yn agos at eu gwerth teg.

Uchod, dangosir y taliadau cytundebol ynghylch prydlesi cyllid wedi'u seilio ar y llif arian nas disgowntiwyd a'r dyddiad cynharaf y gellir mynnu bod y grŵp a'r cwmni yn eu talu.

Mae'r holl ymrwymiadau prydles wedi'u nodi mewn punnoedd sterling. Mae gwerth teg ymrwymiadau prydles y grŵp yn agos at eu swm cynnal. Caiff ymrwymiadau'r grŵp dan brydlesi cyllid eu gwarantu gan hawliau'r prydleswr dros yr asedau a brydleswyd.

21. CYDNABYDDIAETH OHIRIEDIG

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Rhwymedigaethau cyfredol				
Cydnabyddiaeth ohiriedig	333	209	333	209
Rhwymedigaethau nad ydynt yn rhai cyfredol				
Cydnabyddiaeth ohiriedig	722	-	722	-
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Cydnabyddiaeth ohiriedig				
Cyn pen blwyddyn	333	209	333	209
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	(25)	-	(25)	-
Rhwng dwy a phum mlynedd	747	-	747	-
	1,055	209	1,055	209
	£'000	**£'000**	**£'000**	**£'000**
Symudiad mewn cydnabyddiaeth ohiriedig				
Ar 1 Mehefin	209	333	209	333
Addasiad	-	22	-	22
Taliad	(209)	(146)	(209)	(146)
Tâl cyllid cydnabyddiaeth ohiriedig	24	-	24	-
Prynu is-gwmni (nodyn 25)	1,031	-	1,031	-
Ar 31 Mai	1,055	209	1,055	209

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

22. OFFERYNNAU ARIANNOL

Rheoli risg cyfalaf
Mae'r grŵp a'r cwmni yn rheoli ei gyfalaf er mwyn sicrhau y bydd endidau yn y grŵp yn gallu parhau fel busnes gweithredol, gan fanteisio'n llawn ar yr adenillion i fudd-ddeiliaid trwy optimeiddio'r balans dyled ac ecwiti. Caiff strwythur cyfalaf arian a chyfwerthoedd arian a'r ecwiti sy'n briodoladwy i ddeiliaid ecwiti y rhiant, sy'n cynnwys cyfalaf a ddosbarthwyd, cronfeydd wrth gefn ac enillion argadwedig, eu datgelu yn y datganiad newidiadau o ran ecwiti.

Polisïau cyfrifyddu arwyddocaol
Caiff manylion y polisïau cyfrifyddu arwyddocaol a'r dulliau a fabwysiadwyd, gan gynnwys y meini prawf ar gyfer cydnabod, sail y mesur a'r sail a ddefnyddir er mwyn cydnabod incwm a threuliau, ar gyfer pob dosbarth o ased ariannol, rhwymedigaeth ariannol ac offeryn ecwiti, eu datgelu yn nodyn 2 yr offerynnau ariannol.

Amcanion rheoli risg ariannol
Mae'r Bwrdd yn rheoli risgiau ariannol y grŵp a'r cwmni. Gallai'r risgiau hyn gynnwys risg y farchnad (gan gynnwys risg arian breiniol, risg cyfradd llog gwerth teg a risg pris), risg credyd, risg hylifedd a risg cyfradd llog llif arian.

Risg y farchnad
Nid yw gweithgareddau'r grŵp a'r cwmni yn golygu ei fod yn wynebu'r risgiau ariannol sy'n ymwneud â newidiadau mewn cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian breiniol tramor. Os bydd y risgiau hyn yn codi yn y dyfodol, bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'n briodol ymrwymo i offerynnau ariannol deilliadol er mwyn rheoli ei ddinoethiad i risg arian breiniol tramor a chyfraddau llog.

Gan nad yw'r grŵp a'r cwmni yn agored i ddylanwad cyfraddau llog a chyfraddau cyfnewid arian breiniol tramor, ni ddarparwyd dadansoddiad sensitifrwydd.

Rheoli risg credyd
Mae risg credyd yn cyfeirio at y risg y bydd gwrthbarti yn methu cyflawni ei ymrwymiadau cytundebol, gan arwain at golled ariannol i'r grŵp a'r cwmni. Mae'r grŵp a'r cwmni wedi mabwysiadu polisi o ddelio â gwrthbartïon teilwng o gredyd yn unig, gan sicrhau sicrwydd cyfochrog digonol pan fo hynny'n briodol, fel ffordd o leihau risg colled ariannol oherwydd methiant. Dim ond gydag endidau sy'n sicrhau statws cyfatebol â'r raddfa fuddsoddi ac uwch y bydd y grŵp a'r cwmni yn masnachu gyda nhw. Caiff dinoethiad y grŵp a'r cwmni, a statws credyd ei wrthbartïon, eu monitro yn barhaus.

Mae gan y grŵp a'r cwmni ddwysâd o ran y risg credyd gyda'i brif gwsmer, S4C. Mae'r risg credyd gydag S4C yn gyfyngedig gan bod S4C yn ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'r risg credyd ar gronfeydd hylifol ac offerynnau ariannol deilliadol yn gyfyngedig gan bod y gwrthbartïon yn fanciau y mae ganddynt statws credyd uchel a neilltuwyd iddynt gan asiantaethau statws credyd rhyngwladol.

Rheoli risg hylifedd

Bwrdd y cyfarwyddwyr sy'n meddu ar y cyfrifoldeb pennaf dros reoli risg hylifedd. Mae'r grŵp a'r cwmni yn rheoli risg hylifedd trwy gynnal cronfeydd wrth gefn ariannol digonol, ac chan fonitro llif arian go iawn ac a ragwelir, yn barhaus. Nid oes ganddo unrhyw fenthyciadau gan fanc ar hyn o bryd.

Mae'r grŵp a'r cwmni yn disgwyl cyflawni ei ymrwymiadau gan ddefnyddio'i gronfeydd wrth gefn ariannol a'i lif arian gweithredol. Nid yw hyn yn risg arwyddocaol ar hyn o bryd.

Mae'r unig rwymedigaethau sy'n dwyn llog yn ymwneud â'r cytundebau hurbrynu a phrydlesi cyllid a nodir yn nodyn 20.

Gwerth teg offerynnau ariannol

Pennir gwerth teg asedau ariannol nad ydynt yn rhai deilliadol a rhwymedigaethau ariannol yn unol â modelau prisio a dderbynnir yn gyffredinol, ar sail dadansoddiad llif arian wedi'i ddisgowntio trwy ddefnyddio prisiau o drafodion cyfredol gweladwy yn y farchnad a gosodiadau gan werthwyr ar gyfer offerynnau tebyg. Mae symiau cynnal asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol a gofnodir yn unol â'u cost wedi'u hamorteiddio yn y datganiadau ariannol, yn agos at eu gwerthoedd teg. Nid oes gan y grŵp unrhyw offerynnau ariannol deilliadol ar hyn o bryd.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

23. CYFALAF CYFRANNAU WEDI EI ALW

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Wedi'u hawdurdodi				
30,000,000 o gyfrannau cyffredin 1c yr un	300	300	300	300
Wedi'u galw, wedi'u clustnodi ac wedi'u talu yn llawn				
8,914,731 (2009 – 8,911,231) o gyfrannau cyffredin 1c yr un	89	89	89	89

Ar 22 Mawrth 2010, dosbarthwyd 3,500 o gyfrannau cyffredin 1c am arian yn unol ag ymarfer opsiwn am bris ymarferiad o 28c fesul cyfran.

24. TALIADAU WEDI'U SEILIO AR GYFRANNAU

Mae gan y grŵp, trwy gyfrwng Boomerang Plus Ccc, gynllun opsiwn cyfrannau ar gyfer cyflogeion penodol.

Caiff gwerthoedd teg gwasanaethau a geir yn gyfnewid am opsiynau cyfrannau a roddir i gyflogeion, eu mesur trwy gyfeirio at werth teg yr opsiynau cyfrannau a roddwyd. Caiff yr amcangyfrif ynghylch gwerth teg y gwasanaethau a geir ei fesur ar sail model Black Scholes (gyda disgwyliadau ynghylch ymarferiad cynnar yn cael eu cynnwys yn y model).

Roedd manylion yr opsiynau cyfrannau a oedd yn weddill yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

	2010		2009	
	Nifer yr opsiynau cyfrannau	Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol (c)	Nifer yr opsiynau cyfrannau	Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol (c)
Yn weddill ar ddechrau'r flwyddyn	405,894	66.7	415,894	65.7
Fforffedwyd yn ystod y flwyddyn	(3,500)	28.1	-	-
Ymarferwyd yn ystod y flwyddyn	(3,500)	31.3	(10,000)	25
Yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn	398,894	67.3	405,894	66.7
Yn ymarferadwy ar ddiwedd y flwyddyn	398,894	67.3	268,614	37.5

Cyfrannau 1c dan opsiwn	Dyddiad dyfarnu	Pris ymarferiad	Amodau breinio
Opsiynau cyfrannau EMI			
99,500	30 Mehefin 2005	25c	Breiniwyd
149,317	29 Medi 2006	36c	Breiniwyd
137,280	15 Hydref 2007	124c	Breiniwyd
Opsiynau cyfrannau heb eu cymeradwyo			
12,797	29 Medi 2006	156c	Breiniwyd

Roedd gan yr opsiynau a oedd yn weddill ar 31 Mai 2010 oes gytundebol gyfartalog gymhwysol o 6.3 o flynyddoedd (2009 - 7.3 o flynyddoedd).

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

24. TALIADAU WEDI'U SEILIO AR GYFRANNAU (parhad)

Roedd y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd wrth asesu gwrth teg yr opsiynau cyfrannau, trwy ddefnyddio model Black Scholes, fel a ganlyn:

	2010	**2009**
Pris cyfran cyfartalog cymhwysol	124c	124c
Pris ymarferiad cyfartalog cymhwysol	124c	124d
Ansefydlogrwydd disgwyliedig	25%	25%
Oes ddisgwyliedig	2-4 o flynyddoedd	2 - 4 o flynyddoedd
Cyfradd llog heb risg	4.5%	4.5%
Maint disgwyliedig difidend	0%	0%

Mae opsiynau cyfrannau yn mynd yn ddi-rym ddeng mlynedd o'r dyddiad dyfarnu neu pan fydd cyflogeion yn gadael y grŵp. Gwelwyd 3,500 o opsiynau yn mynd yn ddi-rym yn ystod y flwyddyn ar ôl i gyflogeion adael y grŵp (2009 – dim).

Pennwyd ansefydlogrwydd disgwyliedig trwy gyfeirio at ansefydlogrwydd hanesyddol prisiau cyfrannau cystadleuwr cofrestredig. Mae'r oes ddisgwyliedig a ddefnyddiwyd yn y model wedi cael ei addasu, ar sail amcangyfrif gorau y rheolwyr, ar gyfer effeithiau y ffaith na ellir eu trosglwyddo, cyfyngiadau ymarfer, ac ystyriaethau ymddygiadol.

Mae cyfanswm treuliau cydnabyddedig y grŵp o £7,000 (2009 - £23,000) yn ymwneud â thrafodion talu wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti yn ystod y flwyddyn. Ni ddyfarnwyd unrhyw opsiynau cyfrannau yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol na chyfredol.

25. CAFFAEL IS-GWMNÏAU

Ar 19 Hydref 2009, gwelwyd Boomerang Plus Ccc yn caffael cyfalaf cyfrannau cyfan gwbl Indus Films Limited, cwmni cynhyrchu rhaglenni teledu annibynnol. Y gydnabyddiaeth gychwynnol oedd £1,100,000, y talwyd £880,000 wrth gwblhau a £220,000 ar 19 Hydref 2010. Telir cydnabyddiaeth bellach o hyd at £1,295,000 ar ffurf arian parod neu gyfrannau ar sail perfformiad Indus Films Limited yn ystod y dair blynedd ar ôl cwblhau. Ar sail amcanestyniadau, mae'r cyfarwyddwyr wedi amcangyfrif y bydd £802,000 o'r gydnabyddiaeth wrth gefn yn daladwy, a darparwyd am hyn yn y cyfrifon. Rhoddwyd cyfrif am y trafodiad trwy gyfrwng y dull cyfrifyddu prynu.

Isod, amlinellir gwerthoedd teg dros dro yr asedau a gaffaelwyd. Ni chofnodwyd addasiadau gwerth teg.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

25. CAFFAEL IS-GWMNÏAU (parhad)

	Gwerth llyfr a theg £'000
Asedau net a gaffaelwyd	
Eiddo, cyfarpar ac offer	40
Derbyniadau	434
Arian a chyfwerthoedd arian	164
Symiau taladwy	(465)
Hurbrynu	(13)
Treth ohiriedig	(1)
	159
Ewyllys da	918
Perthnasoedd gyda chwsmeriaid	862
Cytundebau di-gystadlu	24
Cyfanswm y gydnabyddiaeth	1,963
Talwyd gan	
Arian	880
Cydnabyddiaeth ohiriedig	229
Cydnabyddiaeth wrth gefn ohiriedig	802
Cydnabyddiaeth brynu	1,911
Costau priodoladwy uniongyrchol	52
Cyfanswm y gydnabyddiaeth	1,963
	£'000
Echlif arian net o gaffael	
Cydnabyddiaeth arian parod	880
Costau	52
Arian a chyfwerthoedd arian a gaffaelwyd	(164)
	768

Mae'r ewyllys da sy'n deillio o'r caffaeliadau yn ymwneud â thalent creadigol a chyfleoedd nad ydynt yn bodloni'r meini prawf er mwyn eu cydnabod fel asedau sefydlog anniriaethol ar wahân.

Gweler nodyn 3 a 12 am fanylion pellach ynghylch asedau anniriaethol gwahanadwy sy'n cael eu cydnabod

Mae Indus wedi cyfrannu £2,761,204 i'r refeniw a £22,826 i'r elw cyn treth ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad caffael i ddyddiad y fantolen. Os byddai'r broses gaffael wedi cael ei chwblhau erbyn diwrnod cyntaf y flwyddyn ariannol, byddai refeniw'r grŵp wedi bod yn £993,021 yn uwch ac elw'r grŵp cyn treth wedi bod £24,437 yn is.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

26. TREFNIADAU PRYDLESI GWEITHREDOL

	2010 £'000	2009 £'000
Taliadau prydles isaf dan brydlesi gweithredol yn cael eu cydnabod fel traul yn ystod y flwyddyn	260	224

Ar ddyddiad y fantolen, roedd gan y grŵp ymrwymiadau dros ben ar gyfer taliadau prydles isaf yn y dyfodol dan brydlesi gweithredol na ellir eu canslo ar gyfer eiddo swyddfa, sy'n ddyledus fel a ganlyn:

	£'000	£'000
Tir ac adeiladau		
Cyn pen blwyddyn	197	170
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	155	94
Rhwng dwy flynedd a phum mlynedd	206	60
	558	324

27. NODIADAU AR GYFER Y DATGANIAD LLIF ARIAN CYFUNOL

	Grŵp 2010 £'000	Grŵp 2009 £'000	Cwmni 2010 £'000	Cwmni 2009 £'000
Elw o weithredoedd	608	1,140	373	551
Addasiad ar gyfer:				
Amorteiddiad asedau sefydlog anniriaethol	61	68	12	3
Dibrisiant eiddo, cyfarpar ac offer	446	396	309	274
Colled/(elw) ar waredu eiddo, cyfarpar ac offer	2	(37)	-	(37)
Grantiau gan y llywodraeth	(117)	(165)	(113)	(150)
Canlyniadau cyd-fenter	20	5	-	-
Darpariaeth ar gyfer amhariad buddsoddiad	70	-	-	-
Taliadau wedi'u seilio ar gyfrannau a'u setlo yn ôl ecwiti	7	23	7	23
Llif arian gweithredol cyn symudiad mewn cyfalaf gweithio	1,097	1,430	588	664
Gostyngiad mewn derbyniadau	(79)	(775)	(577)	(827)
Cynnydd/ (gostyngiad) mewn symiau taladwy	2,109	(2,823)	809	(1,265)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestr	(9)	3	-	-
Arian a sicrhawyd gan weithredoedd	3,118	(2,165)	820	(1,428)
Trethi incwm a dalwyd	(451)	(592)	(152)	(182)
Llog a dalwyd	(52)	(71)	(47)	(65)
Mewnlif/(echlif) arian net o weithgareddau gweithredol	2,615	(2,828)	621	(1,675)

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

28. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG

Grŵp

Rhiant gwmni eithaf y grŵp yw Boomerang Plus Ccc. Ni cheir un parti rheoli.
Mae trafodion rhwng y cwmni a'i is-gwmnïau, sy'n bartïon cysylltiedig y cwmni, wedi cael eu gwaredu wrth gyfuno ac ni chânt eu datgelu yn y nodyn hwn. Datgelir manylion y trafodion rhwng y grŵp a phartïon cysylltiedig eraill isod.

Mae'r derbyniadau eraill yn cynnwys £6,424 (2009 - £9,835) sy'n ddyledus gan Hanner:Hanner Cyfyngedig, £70,409 (2009 - £149,352) sy'n ddyledus gan Adnoddau Zoom Cyfyngedig a £250,005 (2009 - £250,005) sy'n ddyledus gan Calon/Boom JV Limited sy'n gyd-fentrau 50% Boomerang Plus Ccc. Yn ogystal, mae'r derbyniadau eraill yn cynnwys £43,333 (2009 - £33,333) sy'n ddyledus gan Media4Enterprises Limited, sy'n gyfrannog 40% Boomerang Plus Ccc a £46,250 gan Big Freeze Limited, sy'n gyfrannog 25%.

Yn ystod y flwyddyn, mae R Huntingford, un o gyfarwyddwyr y cwmni, wedi darparu gwasanaethau ymgynghorol a oedd yn werth £5,000 (2009 - £13,750), yn ychwanegol i'w dâl fel Cadeirydd anweithredol.

Bu E Walford, aelod teulu agos un o'r cyfarwyddwyr, yn darparu gwasanaethau fel cyflwynydd llawrydd i'r grŵp, a oedd yn werth £dim (2009 - £1,732). Bu Holly Accountants, aelod teulu agos un o'r cyfarwyddwyr, yn darparu gwasanaethau ymgynghorol i'r grŵp, a oedd yn werth £13,900 (2009 - £13,750).

Nodir tâl y cyfarwyddwyr, sy'n bersonél rheoli allweddol y grŵp, yn nodyn 6.

Roedd gwerthiannau nwyddau i bartïon cysylltiedig yn unol â phrisiau rhestr arferol y grŵp ac ni roddwyd disgowntiau. Gwnaethpwyd pryniannau yn unol â phris y farchnad a ddisgowntiwyd i adlewyrchu nifer y nwyddau a brynwyd a'r perthnasoedd rhwng y partïon.

Mae'r symiau sy'n weddill yn anwarantedig a byddant yn cael eu setlo gan ddefnyddio arian parod. Ni roddwyd ac ni chafwyd unrhyw warantau. Ni wnaethpwyd darpariaethau ar gyfer dyledion ansicr o ran y symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig.

NODIADAU AR GYFER Y DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL
Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mai 2010

28. TRAFODION PARTI CYSYLLTIEDIG (parhad)

	2010		2009	
	Gwerthu gwasanaethau £'000	Prynu gwasanaethau £'000	Gwerthu gwasanaethau £,000	Prynu gwasanaethau £'000
Cwmni				
Teledu Apollo Cyfyngedig	168	-	85	-
Fflic Cyfyngedig	287	-	341	8
Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	-	-	186	-
Mwnci Cyfyngedig	24	-	-	468
Boom Talent Limited	-	360	-	-
Boom Freesports Limited	-	30	-	25
Indus Films Limited	3	-	-	-
	482	390	612	501

	2010		2009	
	Symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus i bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig £'000	Symiau sy'n ddyledus i bartïon cysylltiedig £'000
Cwmni				
Fflic Cyfyngedig	149	-	-	1
Mwnci Cyfyngedig	-	1	-	6
Teledu Apollo Cyfyngedig	-	31	27	-
Cynhyrchiadau Alfresco Productions Cyfyngedig	-	2	130	-
218 Holdings Limited	41	-	41	-
Boom Talent Limited	82	-	59	-
Boom Freesports Limited	-	3	26	-
Hanner:Hanner Cyfyngedig	6	-	10	-
Adnoddau Zoom Cyfyngedig	-	-	149	-
Calon/Boom JV Limited	250	-	250	-
Boom Films Limited	219	-	27	-
Cynhyrchiadau Boomerang Cyfyngedig	27	-	27	-
Media4Enterprises Limited	43	-	33	-
Boom Extreme Publishing Limited	607	-	-	-
Indus Films Limited	4	-	-	-
Big Freeze Limited	46	-	-	-
	1,474	37	779	7

Roedd gwerthiannau nwyddau i bartïon cysylltiedig yn unol â phrisiau rhestr arferol y cwmni ac ni roddwyd disgowntiau. Gwnaethpwyd pryniannau yn unol â phris y farchnad a ddisgowntiwyd i adlewyrchu nifer y nwyddau a brynwyd a'r perthnasoedd rhwng y partïon.

Mae'r symiau sy'n weddill yn anwarantedig a byddant yn cael eu setlo gan ddefnyddio arian parod. Ni roddwyd ac ni chafwyd unrhyw warantau. Ni wnaethpwyd darpariaethau ar gyfer dyledion ansicr o ran y symiau sy'n ddyledus gan bartïon cysylltiedig.